

CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

# RHAGLEN 2016

# Rhagair



## Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru

Fel o'r blaen, bu 2015 yn flwyddyn brysur o weithgareddau i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru - gan gynnwys cynnal nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled y wlad. Ym mis Chwefror, ymunais â phlant ysgol o Ysgol y Faenol yn yr arddangosfa ddiddorol i nodi Cadoediad y Nadolig a gynhaliwyd yng Nghastell Bodelwyddan. Ffrwyth gwaith cydweithredu rhwng partneriaid o Gymru, yr Almaen, Ffrainc a Gwlad Belg oedd yr arddangosfa, a'r hyn a wnaeth gryn argraff arnaf oedd y cyfle a roddodd i'r plant ddeall effeithiau'r rhyfel ar y gwledydd hynny. Mae creu ffyrdd newydd a chreadigol i ddehongli'r cyfnod yn cael ei amlygu gan y bartneriaeth dechnoleg rhwng Prifysgol Caerdydd, Amgueddfa Werin Cymru, ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r bartneriaeth wedi creu copi 3D, drwy dechnoleg argraffu arloesol, o'r gadair enwog a enillodd y bardd Hedd Wyn yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw yn 1917. Ym mis Awst, cefais y fraint o arwain y gwasanaeth cofio cenedlaethol ym Mhenmaenmawr goffáu'r Cymry a gollodd eu bywydau yn ymgyrch Gallipoli. Mae arddangosfa deithiol yn cyfrannu at weithgareddau cymunedau lleol yn y rhannau hynny o Gymru lle collwyd nifer sylweddol o fywydau.

Wrth inni edrych ymlaen at 2016, Brwydr y Somme fydd yn cael y lle blaenllaw yn ein digwyddiadau coffa. Ar 7 Gorffennaf byddwn yn coffáu canmlwyddiant Brwydr Coed Mametz, lle collodd cynifer o ddynion eu bywydau.

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r cymunedau a'r sefydliadau lu am eu holl waith caled wrth iddynt ddod ynghyd i gefnogi Rhaglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914–1918. Mae'n galonogol bod prosiectau a digwyddiadau ardderchog yn parhau i nodi'r cyfnod pwysig hwn yn hanes ein cenedl.




## Syr Deian Hopkin, Cynghorydd Arbenigol y Prif Weinidog ar y Rhyfel Byd Cyntaf

Mae'n dair blynedd ers cychwyn ein rhaglen i goffáu'r canmlwyddiant, ac eleni bydd rhai o'r digwyddiadau mwyaf nodedig ac eiconig sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf yn rhan o'n rhaglen. 1916 oedd y flwyddyn y gwelwyd yr effaith fwyaf yn sgil y nifer a laddwyd a'r dinistr a achoswyd. Er enghraifft yr hyn a ddigwyddodd i'r 38ain Adran (Gymreig) ym Mrwydr waedlyd Coed Mametz ym mis Gorffennaf. Bydd y digwyddiad coffa blynyddol ar y safle lle saif cofeb nodedig David Petersen yn un sydd â dwyster ac arwyddocâd arbennig iddi yn 2016. A bydd yr adnewyddu helaeth i'r safle'n ei gwneud hi'n haws o lawer i'w gyrraedd. Mae'r erthyglau diddorol yn y llawlyfr hwn hefyd yn disgrifio digwyddiadau eraill sy'n gysylltiedig â Mametz, gan gynnwys perfformiadau gan Opera Cenedlaethol Cymru o opera newydd gan Iain Bell sy'n seiliedig ar gofiant anhygoel David Jones o'r frwydr, sef In Parenthesis.

Ar yr un pryd, roedd datblygiadau gwleidyddol pwysig yn digwydd: ar y naill law yr oedd goruchafiaeth David Lloyd George, ac ar y llaw arall yr oedd y mudiad heddwch yn cryfhau. Fel sy'n digwydd bob tro, mae ein rhaglen yn ceisio cynnwys pob agwedd ar y profiad o ryfel, er mwyn helpu i ehangu ein dealltwriaeth o gymhlethdodau'r gwrthdaro byd-eang hwn. Er enghraifft, yn dilyn Gwrthryfel y Pasg yn Iwerddon cafodd tua 1,800 o genedlaetholwyr Iwerddon, gan gynnwys Michael Collins ac arweinwyr eraill, eu carcharu mewn gwersyll yn Fron-goch ger y Bala. Bydd y 'brifysgol chwyldro' hon yn rhan o'r coffáu yn ystod 2016.

Yn olaf, ar ran Bwrdd y Rhaglen hoffwn ddiolch i'r holl sefydliadau a'r unigolion hynny sydd wedi cyfrannu at y gyfres bwysig hon o ddigwyddiadau coffa hanesyddol, ac sy'n parhau i gymryd rhan ynddynt.

# Cynnwys




## Y Cymry yng Nghoedydd Mametz ym mis Gorffennaf 1916 — 02

O ganlyniad i ymosodiad gan Adran 38 (y Cymry) ar safleoedd yr Almaenwyr yng Nghoedydd Mametz ym mis Gorffennaf 1916, sef ail wythnos Brwydr y Somme, anafwyd neu laddwyd tua 4,000. Roedd hyn hefyd yn ymosodiad ar anrhydedd yr Adran, fel y mae'r Dr Jonathan Hicks yn adrodd.

## Rhyfel Byd Cyntaf: Cynllun Grantiau Ysgolion Uwchradd — 04

Cipolwg ar brosiectau coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf y mae ysgolion yng Nghymru yn eu cyflawni gan ddefnyddio grantiau o £1,000 a ddarparwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru.

## Cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru — 06

Bydd cyfres gyffrous o arddangosfeydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn canolbwyntio ar gofio, coffáu a'r modd y mae rhyfel wedi'i gynrychioli mewn celf a llên.

## Merched yng Nghymru yn 1916 — 08

I ferched, 1916 oedd y flwyddyn y daeth gwisgo trowsus yn beth normal, o leiaf mewn rhai sefyllfaoedd. Er bod merched a merched ifanc eisoes yn gweithio ar y tir ac mewn gweithfeydd arfau rhyfel, cynyddodd eu nifer yn syfrdanol yn ystod 1916.

## In Parenthesis — 10

I ddathlu ei ben-blwydd yn 70 ac i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, mae Opera Cenedlaethol Cymru yn perfformio dangosiad cyntaf byd-eang yn 2016, yn seiliedig ar destament artistig rhyfeddol i brofiad gwaedlyd y ffosydd, fel yr esbonia Jon Gower.

## Recriwtio, Cofio, Adfer — 12

Eleni, mae gan Amgueddfa Cymru – National Museum Wales raglen gyffrous o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ystyried y profiad o fyw trwy ryfel a'r effaith a gafodd ar fywydau pobl gyffredin ar draws y wlad, fel yr eglura Emma Routley.

## Cymru dros Heddwch — 14

Mae Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol yn edrych ar sut y mae effaith y rhyfel wedi llunio cyfraniad Cymru at yr ymchwil am heddwch - o Lyfr Coffa'r Rhyfel Byd Cyntaf, mudiadau fel yr Urdd, y Crynwyr a'r Mudiad Gwrth-Apartheid, hyd at weithio dros heddwch heddiw ac yn y cenedlaethau i ddod. Mae Craig Owen yn cynnig rhai cwestiynau ac atebion.

## 'Prifysgol Chwyldro' Iwerddon yng Nghymru: Gwersyll Carchar Fron-goch (1916) — 16

Yr Athro Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth sydd yn adrodd stori'r gweriniaethwyr Gwyddelig a garcharwyd yng Ngwersyll Fron-goch, Sir Feirionnydd, yn 1916.

## Cadw ein cofebau rhyfel — 18

Mae rhan bwysig gan gofebau rhyfel cymunedol i'w chwarae wrth goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac mae cynllun grantiau a chanllawiau cadwraeth Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn cydnabod hynny drwy helpu i'w cynnal a'u cadw ar gyfer y dyfodol.

## Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ac 1914.org — 20

Rhaglen dan arweiniad yr Imperial War Museums yw Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer pob sefydliad dielw sy'n nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf (2014 – 2018).

## Ffynonellau Cyllid — 22

Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

## Digwyddiadau — 24

Rhestr digwyddiadau ar gyfer 2016.

## Y Cymry yng Nghoed Mametz 1916: y Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol — 32

Bydd Gorffennaf 2016 yn dynodi canmlwyddiant Brwydr y Somme a ddechreuodd ar 1 Gorffennaf ac a barhaodd hyd 18 Tachwedd 1916. Phil Davies sydd yn manylu ar ddigwyddiadau coffa mis Gorffennaf.



(clawr) Llys Ceimiad: La Bassée Front 1916 © Trwy garedigrwydd Ystad David Jones. Darparwyd y ddelwedd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru
(uchod) Braslun o danc a dynnwyd gan David Jones yn ystod ei amser ar Ffrynt y Gorllewin. Trwy garedigrwydd Ystad David Jones

OGL © Hawlfraint y Goron 2016

# ‘MAE’N SIŴR NAD YW UFFERN YN WAETH NA HYN’

## Y Cymry yng Nghoedydd Mametz ym mis Gorffennaf 1916

**O ganlyniad i ymosodiad gan Adran 38 (y Cymry) ar safleoedd yr Almaenwyr yng Nghoedydd Mametz ym mis Gorffennaf 1916, sef ail wythnos Brwydr y Somme, anafwyd neu laddwyd tua 4,000. Roedd hyn hefyd yn ymosodiad ar anrhydedd yr Adran, fel y mae’r Dr Jonathan Hicks yn adrodd.**



(uchod) Aelod o grŵp o weithwyr yn gofalu am fedd rhyfel, ger Coedydd Mametz. Awst 1916. © IWM Q4095

Ffurfiwyd Adran 38 (y Cymry) ym mis Rhagfyr 1914 dan arweiniad yr Uwch-Gadfridog Ivor Philipps. Cafodd unedau newydd o’r Gatrawd Gymreig, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a Chyffinwyr De Cymru eu recriwtio o ddinasoedd Caerdydd ac Abertawe, o’r Rhondda, Caernarfon, Môn, Sir Gaerfyrddin a Gwent, yn ogystal ag o Lundain a Gogledd Cymru. Ymhen hir a hwyr aethant i Ffrainc yn ystod wythnos gyntaf mis Rhagfyr 1915. Roedd hynny’n gychwyn ar frwydro caled pan dynnwyd yr Adran i mewn i gyfnod o ymladd gyda’r mwyaf ffyrnig ar Ffrynt y Gorllewin.

Yn dilyn y brwydro cynnar ar y Somme, gwthiodd y Fyddin Brydeinig yr Almaenwyr yn ôl y tu hwnt i bentref Mametz gan eu hwynebu ar draws y cwm isel i’r de o Goedydd Mametz.

Coedydd Mametz oedd y coedydd mwyaf ar y Somme, ac mae hynny’n wir o hyd, gan eu bod yn ymestyn dros 200 erw. Roedd yr Almaenwyr yn gallu tanio ar unrhyw rai a fyddai’n nesáu at y coedydd o Goedlannau Flatiron a Sabot i’r dwyrain. At hynny, roedd ail linell yr Almaenwyr 300 llath y tu hwnt i ymyl ogleddol y coedydd a gellid ei hatgyfnerthu’n hawdd. Ymhlith unedau’r Almaenwyr yn wynebu’r Cymry roedd Catrawd Lehr yng Ngwarchodlu Prwsia.

Trefnwyd yr ymosodiad ar gyfer

8.30 ar fore 7 Gorffennaf, ac er nad ymddangosodd y llen mwg a fwriadwyd, aeth 11fed Cyffinwyr De Cymru (SWB) ac 16fed y Gatrawd Gymreig (y Cymry) at eu gwaith cyn gynted ag y peidiodd y magnelwyr, ac ar unwaith taniwyd arnynt gan ddrylliau'r Almaenwyr. Cynyddodd nifer y rhai a anafwyd, a daeth yr ymosodiad i ben ryw 250 llath cyn cyrraedd y coedydd.


Cafodd 400 eu lladd neu eu hanafu. Symudwyd Philipps o'i swydd, a chymerwyd ei le gan yr Uwch-Gadfridog Watts, a aeth ati ar unwaith i drefnu ymosodiad arall. Am 3.30 y bore ar 10 Gorffennaf dechreuodd y magnelwyr danio, ac yn fuan ar ôl 4 o'r gloch y bore dechreuodd yr ymosodiad. Collodd 16fed y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig (RWF) rywfaint o'u hamddiffyniad gan y magnelwyr, ac o ganlyniad collodd y bataliwn yn drwm wrth symud ymlaen at y coedydd.

Ar y dde taniwyd ar 13fed y Cymry hefyd gan ddrylliau mawr yr Almaenwyr. Cafodd llawer iawn eu lladd neu eu hanafu a gyrrwyd hwy'n ôl ddwywaith, ond yn y diwedd fe lwyddwyd i gael troed i mewn yn y coedydd. Cyrhaeddodd 14edd y Cymry y coedydd fwy neu lai wrth i'r ymosodiad gan y magnelwyr godi ar y ffin. Ar y chwith caeodd ymosodiad 14edd RWF y tu ôl i 16fed RWF, ac anfonodd y Brigadydd Price-Davies y 15fed a'r 13edd RWF i ymosod bron ar unwaith. Ar y dde ychwanegwyd 10fed y Cymry, gan wneud cyfanswm o saith o'r wyth bataliwn yn y ddwy frigâd a gymerodd ran yn yr ymosodiad.

Bu'r ymosodiad yn llwyddiant, a chyflawnwyd pob nod ynghynt na'r bwriad, ond nid heb gostio'n ddrud. Yn y saith bataliwn a aeth i mewn i'r frwydr, roedd pump o'r prif swyddogion wedi'u lladd neu eu hanafu'n ddifrifol. Ac at hynny collwyd llawer iawn o'r swyddogion iau, gan olygu bod rheoli'r miloedd o ddynion a oedd yn y coedydd yn mynd yn fwyfwy anodd. Llifodd milwyr atgyfnerthu'r Almaenwyr i mewn a chreu anhrefn am gyfnod ymhlith y Cymry a oedd yn ymosod. Ond tua 2.40pm llwyddodd 10fed y SWB i gael patrôl allan i'r ymyl ogleddol. Erbyn 6.30pm y diwrnod hwnnw roedd y rhan helaethaf o'r coedydd yn nwylo'r Cymry. Daeth yr ymladd am y dydd i ben yn y fan honno, ond roedd y dynion yn flinedig ac yn nerfus, a bu llawer iawn o danio gwyllt yn ystod y nos.

Trefnwyd ymosodiad ar gyfer 3pm ar 11 Gorffennaf gydag 16fed y Cymry, 17fed RWF ac 11fed SWB yn arwain. Am 2.45pm dechreuodd y magnelwyr danio, ond heb gyrraedd y pellter a disgyn ynghanol y milwyr Cymreig. Llwyddodd 11fed SWB i gyrraedd cornel gogledd-ddwyrain y coedydd erbyn 5.40pm a bu ymladd ffyrnig weddill y dydd. Sylweddolodd yr Almaenwyr nad oedd diben parhau i amddiffyn y coedydd, a gorchmynnwyd tynnu'r milwyr yn ôl. Wrth iddi wawrio ar 12 Gorffennaf, daeth milwyr eraill i gymryd lle milwyr blinedig y 38fed Adran (y Cymry).

Roedd yr ymladd dros Goedydd Mametz ar ben. Roedd 4,000 o ddynion wedi dioddef - tuag un rhan o dair o holl rym y milwyr traed - ond ychydig iawn o gydnabyddiaeth a gafodd yr Adran. Aeth blwyddyn arall heibio cyn i'r dynion gael cyfle i ddangos eu gwerth, ac ar Gefnen Pilckem ger Ypres adferwyd eu hanrhydedd, ond nid heb i nifer fawr o ddynion eto gael eu lladd.








(top) Map o Goedydd Mametz © Ian R Gumm (2015)

(canol) Sieliau'n ffrwydro yng Nghoedydd Mametz. Drwy garedigrwydd Jonathan Hicks.

(uchod) Cofeb Draig Goch y 38ain Adran (Gymreig) Drwy ganiatâd caredig, Gary Williams




# Y Rhyfel Byd Cyntaf: Cynllun Grantiau Ysgolion Uwchradd

**Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd y Prif Weinidog fod £850,000 o gyllid ar gael i sicrhau gwaddol addysgol i ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Un elfen bwysig i'r rhaglen oedd galluogi ysgolion uwchradd yng Nghymru i wneud cais am grant o £1,000 i ddatblygu prosiectau arloesol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae ysgolion wedi cael y rhyddid i ddehongli'r prosiect yn ôl eu dymuniad.**

(uchod ac i'r dde) Disgyblion Ysgol Gyfun Aberaeron gyda'r murlun gorffenedig © Phill Davies

## Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn, y Barri

Mae disgyblion Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn y Barri wedi bod yn brysur yn cynllunio'u coffadwriaeth eu hunain o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Maen nhw wedi penderfynu cael gardd heddwch fel cofeb barhaol. Mae'r disgyblion a'r staff wedi cael eu hysbrydoli gan ddrama, celf, geiriau a myfyrdod a defnyddio hynny i gyd-weithio i adeiladu gardd goffa barhaol.

Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys disgyblion chwe ysgol gynradd sy'n bwydo'r ysgol uwchradd. Daeth pawb at ei gilydd ddydd Gwener, 15 Mai i wylio a chymryd rhan yn nathliad agor yr ardd, i greu eu hatgofion heddwch eu hunain ac i gofio bod llawer o waith i'w wneud o hyd i sicrhau heddwch yn ein byd.

Prosiect trawsgwricwlaidd oedd hwn. Dangosodd yr adran hanes y cysylltiad rhwng ein strydoedd ni nawr a chyfeiriadau'r rhai a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Cynigiodd yr adran ddrama eu dehongliad eu hunain o effaith y rhyfel ar y rhai a arhosodd gartref. Rhoddwyd croeso cynnes i aelodau o'r gymuned leol i berfformiad o 'Oh What a Lovely War' gan y côr yn rhan o seremoni cyflwyno gardd heddwch Sant Richard Gwyn.

Bu'r disgyblion yn gwneud garanod heddwch o bapur, yn peintio cerrig heddwch ac yn gosod pabïau coch yn yr ardd heddwch ar dir yr ysgol. Cafodd y dysgwyr gyfle hefyd i siarad ag aelodau o gangen y Barri o'r Lleng Brydeinig Frenhinol.







## Ysgol Gyfun Aberaeron

Mae prosiect i greu murlun coffa wedi ennyn chwilfrydedd ymhlith disgyblion yn Aberaeron ynglŷn â'u hardal yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Daeth aelodau o Gymdeithas Aberaeron at y dysgwyr i rannu hanesion am y rhyfel gyda nhw. Trefnodd y disgyblion arddangosfa o dan yr enw 'Amser i Gofio' mewn cydweithrediad â Chapel Peniel yn nhref Aberaeron, fel rhan o'r gwaith o gasglu tystiolaeth leol ar y cyd gyda'r gymuned.

Aeth y dysgwyr i weld yr arddangosfa ac adroddodd Euros Lewis, o Theatr Felinfach, ragor o hanesion lleol am y Rhyfel Byd cyntaf wrthyn nhw.

Ar ôl casglu eu gwybodaeth, dechreuodd y disgyblion gynllunio'r murlun gyda help cyn-ddisgybl, Sam Delph Janiurek, sy'n astudio Celfyddyd Gain ym Mhrifysgol Newcastle. Cafodd disgyblion o ysgolion cynradd y cylch gyfle i gyfrannu at gynllunio a pheintio'r murlun fel rhan o ddiwrnod pontio. Mae'r murlun yn llawn cyfeiriadau lleol ynghyd â delweddau a negeseuon grymus.

Mae'r prosiect wedi dyfnhau gwybodaeth y disgyblion am eu milltir sgwâr yn ystod y Rhyfel, ac wedi cynyddu eu gwybodaeth am y colledion, am gyfraniad menywod, a hanes eu teuluoedd eu hunain.

Am ragor o fanylion ar brosiectau ysgolion ewch i www.cymruncofio.org/projects



**(gyferbyn) Disgyblion gyda'r ardd heddwch wedi'i chwblhau. © Drwy ganiatâd caredig Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn**

**(chwith) Disgyblion yn cwrdd ag aelodau o'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn agoriad yr ardd heddwch. © Drwy ganiatâd caredig Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn**

# Cofio'r Rhyfel yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

## *Bydd cyfres gyffrous o arddangosfeydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn canolbwyntio ar gofio, coffáu a'r modd y mae rhyfel wedi'i gynrychioli mewn celf a llên.*

**Cynhelir arddangosfa gyntaf y flwyddyn - 'Cofio er mwyn Heddwch' – mewn partneriaeth â Chymru dros Heddwch a bydd yn canolbwyntio ar Lyfr Coffa Cenedlaethol Cymru. Bydd y Llyfr i'w weld o 16 Ionawr hyd 9 Ebrill ynghyd â chopi sydd wedi'i ddigido gan y Llyfrgell. Bydd yr arddangosfa deithiol hon yn adlewyrchu effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar gymunedau yng Nghymru, ac yn annog ymwelwyr i ystyried a gafodd pobl Cymru eu harwain i chwilio am heddwch.**

Rhwng 30 Ionawr a 28 Mai, bydd cyfle arall i ymwelwyr â'r Llyfrgell weld arddangosfa Amgueddfa Cymru o brintiadau propaganda o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd chwe deg chwech o brintiadau lithograffeg i'w gweld, a gymerwyd o bortffolio The Great War: Britain's Efforts and Ideals, a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Wybodaeth yn 1917. Mae'r printiadau yn cynnwys gweithiau gan rai o arlunwyr Prydeinig enwocaf y cyfnod, fel Augustus John, Frank Brangwyn a Christopher Nevinson. Fe'u cynhyrchwyd gyda'r bwriad o ailgynnau brwdfrydedd a chefnogaeth y cyhoedd i'r ymgyrch ryfel, ac maent yn dueddol o osgoi realiti llym y rhyfel gan gynnig portread mwy cadarnhaol, sy'n canolbwyntio ar gyfleu rhyddid a democratiaeth.

Bydd 'Efforts and Ideals' yn edrych ar sut y caiff rhyfel ei bortreadu mewn propaganda swyddogol, ac arddangosfa 'Words of War' (23 Ionawr-18 Gorffennaf) yn trafod sut mae gwrthdaro wedi'i gynrychioli yn llenyddiaeth Gymraeg trwy'r oesoedd. Am ganrifoedd, mae beirdd a llenorion Cymreig wedi dewis ysgrifennu am brofiad rhyfel, yn fuddugoliaethau a cholledion. Bydd yr arddangosfa hon yn cyfeirio at sawl achos o wrthdaro hanesyddol gan gynnwys Catraeth, Cilmeri, Bosworth a'r Somme. Bydd cyfle i weld disgrifiadau llygad-dystion ac ymateb llenorion diweddarach fel Bleddyn Fardd a Gerallt Lloyd Owen ochr yn ochr â thystiolaeth croniclwyr cyfoes a diweddarach. Er nad yw'r arddangosfa'n canolbwyntio'n llwyr ar y Rhyfel Byd Cyntaf, fe fydd yn cynnwys cerdd enwog David Jones, In Parenthesis (1937), sy'n cyfleu ei brofiadau dirdynnol yn ystod y Rhyfel. Bydd hefyd yn trafod sut y dylanwadodd cerdd ganoloesol, Y Gododdin, ar y gerdd hon.

Brwydr Coed Mametz ac In Parenthesis fydd ffocws arddangosfa olaf y flwyddyn hon, sef 'Mametz' (2 Gorffennaf – 3 Rhagfyr). Mae erchyllterau Gorffennaf 1916 yng Nghoed Mametz, coedwig 200-erw yn département Somme, gogledd Ffrainc, wedi dod yn rhan bwysig o hanes a hunaniaeth Cymru. Lladdwyd neu anafwyd dros 4,000 o filwyr y 38ain Adran (Gymreig). Portreadir y frwydr yn fyw yn In Parenthesis; anafwyd David Jones ei hun wrth ymladd gyda Bataliwn Cymry Llundain y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Ysbrydolwyd y ffotograffydd Aled Rhys Hughes yntau gan y gerdd hon; ac aeth ati i dynnu lluniau o Goed Mametz fel y saif heddiw gan holi'r cwestiwn: A oes cof gan dirwedd? Bydd yr arddangosfa yn cyflwyno tirluniau pwerus y ffotograffydd ochr yn ochr â recordiadau sain, deunydd o bapurau David Jones ac eitemau clyweledol eraill.

## Coffáu digidol yn y Llyfrgell

Bydd gwaith yn parhau yn 2016 i ddatblygu adnoddau addysg dwyieithog pellach i ysgolion fel rhan o brosiect sy'n cael ei arwain gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru a'i ariannu gan Adran

Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Mae'r adnoddau yn rhai trawsgwricwlaidd ac yn defnyddio fideos, recordiadau sain, delweddau a thestunau am y Rhyfel Byd Cyntaf o gasgliadau'r ddau sefydliad. Mae'r adnoddau i'w cael am ddim ar wefan Hwb ar https://hwb.wales.gov.uk > Adnoddau > Rhyfel Byd Cyntaf: Prosiect Addysg.

Mae yna gyfle hefyd i ysgolion a'r cyhoedd ledled Cymru gyfrannu at gronfa ddata gynyddol o wŷr a gwragedd o Gymru a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf drwy Wales at War. Ewch i www.walesatwar.org neu gallwch lawrlwytho'r ap o'r App Store neu Google Play am wybodaeth bellach. Ariennir y prosiect gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru a Chronfa Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog.

Mae deunyddiau'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru ar gael ar wefan Cymru1914, ac mae Casgliad y Werin Cymru (mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru) yn parhau i gefnogi prosiectau Rhyfel Byd Cyntaf sy'n cael eu cynnal gan grwpiau cymunedol.

**www.llgc.org.uk**

**@NLWales @LlGCymru**







(cefndir) Y Coedydd ym Mametz. © Aled Rhys Hughes.
(uchod) Posteri recriwtio o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru



1



4



2

# Merched yng Nghymru yn 1916

## I ferched, 1916 oedd y flwyddyn y daeth gwisgo trowsus yn beth normal, o leiaf mewn rhai sefyllfaoedd. Er bod merched a merched ifanc eisoes yn gweithio ar y tir ac mewn gweithfeydd arfau rhyfel, cynyddodd eu nifer yn syfrdanol yn ystod 1916.

(prif ddelwedd) Olwen Leyshon, gweithwraig yn y Ffatri Ffrwydron Genedlaethol, Pen-bre, Sir Gaerfyrddin. Drwy ganiatâd caredig Archif Merched Cymru
(uchod ar y dde) Beatrice Cope a'i mab, Eric, Trelech, Sir Fynwy. Drwy ganiatâd caredig Archif Merched Cymru
(gwaelod ar y dde) Gwragedd Tocynnau ar Fysiau Abertawe. Y Dde, Edith Haines (gynt Spridgeon). Drwy ganiatâd caredig Archif Merched Cymru

Roedd Deddf Gwasanaeth Milwrol (Mawrth) yn caniatáu consgripsiwn yn achos holl ddynion sengl a gwŷr gweddw heb blant rhwng 18 a 41, ac yn fuan wedyn, holl ddynion priod. Roedd yn rhaid i'r merched gamu i'w hesgidiau i sicrhau bod y peiriant rhyfel yn symud ymlaen. Er bod miloedd o ferched wedi cofrestru am waith rhyfel yn 1915, nid oedd cyflogwyr yn awyddus i'w cyflogi er 'mawr siom' i nifer ohonyn nhw. Bellach, nid oedd dewis gan y cyflogwyr.



Roedd Pwyllgorau Amaeth ledled Cymru yn galw allan am ferched i weithio ar y tir. Ym mis Mehefin, er enghraifft, gwelwyd dros 300 o fenywod Sir Gâr yn cofrestru ar gyfer gwaith fferm. Ym mis Medi, gwelwyd erthygl faith yn y Cambria Daily Leader dan y pennawd 'The Wearing of Male Attire – a Visit to Margam', ynghyd â ffotograffau o ddwy fenyw ifanc mewn dyngarîs yn gwneud gwaith fferm. Dywedodd y gohebydd bod hyn yn 'controversial' ac 'indecorous', er i'r merched daeru bod y dillad yn 'practical for work'. Mae adroddiad arall o'r cyfnod yn disgrifio sut oedd y merched wedi 'invaded the sedate streets of Aberavon … Women in trousers, indeed to goodness, tut-tut! Whateffer next?'

Roedd trowsus hefyd yn ymarferol i ferched wrth ymgymryd â gwaith trwm a pheryglus mewn ffatrïoedd gwneud arfau; tynnwyd lluniau o lawer ohonyn nhw yn eu gwisgoedd gwaith [1]. Erbyn diwedd 1916, roedd mwy na 3,500 o ferched yn gweithio yn y Ffatri Ffrwydron ym Mhen-bre yn Sir Gâr. Roedd Miss G. M. West, aelod o Heddlu'r Merched a oedd newydd ei ffurfio, yn gweithio yno; cyn hynny bu'n gweithio yn y Ffatri Ffrwydron Cenedlaethol yn Fferi Isaf, Sir y Fflint, lle 'many girls fainted in the T.N.T. Room … exposed to that deadly poison.' Ym Mhen-bre, dywedwyd bod 'the ether in the cordite affects some of the girls. It gives them headaches, hysteria, & sometimes makes them unconscious.'

Mae adroddiad ym Mehefin, 'Women and War Work', yn disgrifio'r gweithgareddau yr oedd merched yn ymgymryd â nhw: 'Countless numbers of women have entered into all kinds of occupations ... You may see them … delivering or collecting letters, or acting as ticket collectors, window cleaners, and in some cases as luggage porters …, and also as smart and urbanic [sic] conductors of the tramcars and omnibuses.' Edith Haines oedd un o'r rhain; fe'i gwelir yma i'r dde o ddau gyd-weithiwr, rhai o docyn wragedd bws cyntaf Abertawe [2].

Roedd nyrsio yn rôl draddodiadol, ac yn un lle'r oedd galw parhaus am recriwtiaid newydd. Roedd nifer o nyrsys a oedd wedi hyfforddi cyn y Rhyfel yn awyddus i ymuno â'r rhengoedd, ac anfonwyd llawer ohonyn nhw dramor. Bu farw rhai ohonyn nhw yno, fel Frances Brace o Sir Benfro. Wrth weithio mewn ysbyty milwrol yn Salonika, cafodd malaria a dysentri a bu farw ym Malta y mis Medi hwnnw. Roedd hysbysebion brys mewn papurau newydd am 'women and girls in Military & Auxiliary Hospitals at Home – Age from 18 to 48.' Nid oedd angen unrhyw hyfforddiant blaenorol. Roedd Lottie Davies a weithiai fel VAD yng Nghaerffili yn un ohonyn nhw. Llwyddodd i 'nursed a young cockney soldier wounded on the Somme.' Rhedodd y ddau i ffwrdd ar ei feic modur (gan ddigio ei theulu oedd â chynlluniau arall iddi), a bu'r ddau yn briod am fwy na hanner can mlynedd.' [3]

Ni sefydlwyd Corfflu Merched Ategol y Fyddin (WAAC) hyd fis Rhagfyr 1916, ac felly nid yw'n rhan o'r adolygiad hwn. Dilynodd y WRAF (dan arweiniad Winifred Coombe Tennant o Gastell Nedd am gyfnod byr) a'r WRNS yn 1917. Mae nifer o ffotograffau o'r WAACs yn Archif y Merched.

Wrth gwrs, ni welwyd holl wragedd Cymru yn ymuno â'r gweithlu swyddogol, ond mae'n debyg i'r rhan fwyaf ohonyn nhw wneud rhywbeth a oedd yn gysylltiedig â'r Rhyfel. Roedd prinder bwyd a chynnydd mewn prisiau bwyd yn sialens iddyn nhw, a gwaith gweu a gwnïo i'w wneud. Cynhyrchwyd llawer iawn o 'gysuron' i filwyr a morwyr. Yn Ebrill, derbyniodd Urdd Gwaith Rhyfel Llangollen 'twelve caps, 35 pairs of socks, five pairs of mittens, eight pairs of bed socks, 18 pairs of stockings, nine hospital shirts, seven bed jackets, 19 bags, and 24 white handkerchiefs'. Yn anffodus 'some of the socks are rather unsatisfactory … being so small that they will have to be given to boys'.

Wrth gwrs, roedd gofidio cyson am wŷr, meibion, tadau a brodyr. Beatrice Cope o Drelech, ger Trefynwy, oedd un fam. Mae'r ffotograff [4] yn ei dangos gyda'i mab ieuengaf, Eric, cyn iddo gael ei anfon i Ffrainc yn Ionawr 1916. Roedd yn 2il Lefftenant Dros Dro, a bu farw gyda miloedd o ddynion eraill ar 1 Gorffennaf, diwrnod cyntaf Brwydr y Somme, yn 18 mlwydd oed.



3


(uchod) Lottie Davies, VAD, Caerffili. Drwy ganiatâd caredig Archif Merched Cymru

Casglwyd y ffotograffau yn yr erthygl hon gan Archif Merched Cymru i'r prosiect Menywod yn y Rhyfel Byd Cyntaf: Profiad y Cymry a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Rydym yn parhau i chwilio am unrhyw ddeunyddiau sy'n sôn am fywydau merched yn ystod Rhyfel, i'w sganio i'n gwefan.

# In Parenthesis

**I ddathlu ei ben-blwydd yn 70 ac i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf, mae Opera Cenedlaethol Cymru yn perfformio dangosiad cyntaf byd-eang yn 2016, yn seiliedig ar destament artistig rhyfeddol i brofiad gwaedlyd y ffosydd, fel yr esbonia Jon Gower.**



(uchod) Dyluniad set ar gyfer In Parenthesis gan Robert Innes Hopkins

Mae Brwydr y Somme yn cynnig yr ystadegau mwyaf gwaedlyd. Bu farw mwy na miliwn ar y tiroedd marwol hyn, sef y nifer mwyaf yn hanes dyn. Mae un frwydr yn arbennig, Brwydr Coed Mametz, yn arwyddocaol i Gymru. Yma, anafwyd neu, bu farw 4,000 o ddynion – y rhan anafwyd neu bu farw o gatrawdau Cymreig – yn sgil gorchmynion anghymedrol.

Y bardd, awdur ac artist o Gymru, David Jones, oedd un o'r rhai fu'n ymladd ym Mametz. Roedd ef wedi dewis ymuno â'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ac ymladd ochr yn ochr â milwyr cyffredin ar y Ffrynt Gorllewinol yn hytrach na derbyn comisiwn.

Wrth gwrs, nid oedd Jones yn unigryw fel bardd yn y ffosydd. Bu Siegfried Sassoon a Robert Graves hwythau yn cymryd rhan yn rhai o'r brwydrau hyn. Gwelodd eu cerddi hwy olau dydd yn eithaf sydyn, gan iddynt mae'n siŵr gael eu cymell i dynnu sylw at y digwyddiadau erchyll, ond bu cyfnod datblygu gwaith Jones ar y rhyfel yn hirach o lawer. Cymerodd sawl blwyddyn i ysgrifennu In Parenthesis. Heb os, nid oedd David Jones eisiau ysgrifennu llyfr rhyfel. Roedd eisiau i'w lyfr fod 'about a good kind of peace … We find ourselves privates in foot regiments. We search for formal goodness in a life singularly inimical and hateful to us.'

Yn sicr, nid gwaith rhwydd fu creu In Parenthesis: dioddefodd Jones waeledd meddwl wrth weithio ar ddrafft pellach, a rhoi naws farddol i'r deunydd hunangofiannol. Ond mae ffrwyth ei waith yn gamp aruthrol, yn wir yn waith athrylith yn ôl T. S. Eliot. Roedd y gofod amser hwnnw fel petai wedi caniatáu i David Jones edrych ar ddigwyddiadau gwaedlyd Mametz yn glir trwy brism y cof, ac i gyfuno holl ryfeloedd hanes dyn i un orig aruchel a chyfriniol. Mae In Parenthesis yn ddim llai na champwaith modernaidd am ryfel a heddwch, yn gweu chwedlau hynafol a realiti gwaedlyd, yn cyfuno marwolaeth gydag atgyfodiad.

Mae'r opera newydd In Parenthesis yn addasiad gan y cyfansoddwr Prydeinig ifanc, Iain Bell, o'r campwaith hwn. Fe'i comisiynwyd gan Ymddiriedolaeth Nicholas John gyda 14-18 NOW, rhaglen ddiwylliannol yn y DU i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae sgôr hyfryd Bell yn cyfuno cerddoriaeth draddodiadol Gymreig ag eiliadau o fyd arall, erchylltra, hiwmor a rhagoriaeth. Yn wir, mae un gân, Sosban Fach yn fath o anthem, a bydd y gân hon yn ganolog i gyfres

o weithdai a digwyddiadau a gynhelir ledled y DU. Cynlluniwyd y gwaith hwn i ymgysylltu gyda chynulleidfa eang o bobl ifanc a chymunedau, gan roi cyfle iddynt gyfranogi yn y coffáu hyn.

Fel y gwelir yn aml ym myd opera, y geiriau ddaeth gyntaf, a'r geiriau yn yr achos hwn yn eiddo i David Antrobus ac Emma Jenkins. Roedd y ddau yn gwybod yn iawn fod ysgrifennu libreto yn wahanol i ysgrifennu ar gyfer cynhyrchiad theatrig syml, yn gryn sialens, 'a'r her gyntaf oedd cofio ei bod yn cymryd pedair gwaith cymaint o amser i ganu rhywbeth ag y mae i'w ddweud, felly mae'n rhaid bod yn gryno'.


Un o'r sialensiau mwyaf i Antrobus a Jenkins oedd cyfleu'r cymeriad canolog, Preifat John Ball. Er yn dyst i'r digwyddiadau, prin y dywed unrhyw beth yn y gerdd ei hun. Fodd bynnag, fel yr esbonia Jenkins, 'Yn yr opera, ef yw ein prif gymeriad, a phrin ei fod yn rhoi'r gorau i ganu am y ddwy awr gyfan. Mae'n dreiathlon o ran. Roedd canfod llais, persona ac idiom iddo yn rhan fawr o'n proses.'

'Fe ddechreuon ni drwy geisio creu addasiad didwyll i'r llwyfan,' esbonia Antrobus. 'Fodd bynnag, nid oedd hynny'n cyfleu natur gyfeiriadol ysgrifennu Jones. Rhydd opera gyfle i wneud hynny.' Mae'r cyd-libretydd Emma Jenkins yn ymhelaethu ar y broses: 'Ein hymateb ni i'r gerdd aruthrol hon yw'r gwaith hwn. Mewn unrhyw addasiad, mae'n bwysig hawlio'r gwaith newydd fel eich gwaith chi eich hun. Yn sicr, bydd unrhyw un sy'n gyfarwydd â'r gerdd wreiddiol yn adnabod sawl darn o'r testun, ond mae yna hefyd ddigon o ddeunydd newydd.

Roedd y libretwyr yn awyddus iawn i dynnu sylw at y cysyniad o fydoedd paralel, y syniad bod modd trawsnewid milwyr y Ffrynt Gorllewin unrhyw eiliad yn farchogion Arthuraidd yn chwilio am y greal neu ddynion yn Agincourt, neu ryfelwyr Llydewig y 6ed ganrif. Nid profiad o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn unig a geir yma, ond yn hytrach pob rhyfel. Fel y dywed David Pountney, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Artistig OCC, a gomisiynodd yr opera ac a fydd yn ei gyfarwyddo, 'Mae In Parenthesis yn goffâd. Mae'r cynhyrchiad yn datblygu'r syniad hwn, ac yn gosod y dehongliad barddol a myfyriol o'r frwydr erchyll hon mewn gofod a allai fod yn un o'r capeli Cymreig unig hynny a welir ar lethrau anghysbell. Oddi yno, mae lleisiau'r côr yn atseinio, gan adleisio'r cyfeillgarwch dwys ac erchyll a gyffyrddodd David Jones i'r byw yn ei brofiad o ryfel.'

Bydd In Parenthesis yn cael ei berfformio yng Nghaerdydd, Birmingham a Llundain 13 Mai – 1 Gorffennaf 2016. Ceir rhagor o fanylion yn y tudalennau Digwyddiadau neu ewch i www.wno.org.uk/parenthesis

Bydd In Parenthesis yn cael ei ffrydio'n fyw ar www.theoperaplatform.eu yn ystod haf 2016.



(isod) Wedi'i gomisiynu gan y Nicholas John Trust gyda 14-18 NOW, WW1 Centenary Art Commissions, cefnogwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Chyngor Celfyddydau Lloegr, a chan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

14-18-NOW WW1 CENTENARY ART COMMISSIONS
FIRST WORLD WAR CENTENARY LED BY IWM
WNO WELSH NATIONAL OPERA CENEDLAETHOL CYMRU
Department for Culture Media & Sport
Supported using public funding by heritage lottery fund ARTS COUNCIL ENGLAND LOTTERY FUNDED

(top) Drafft o In Parenthesis gan David Jones. Drwy ganiatâd caredig Ystad David Jones



# Recriwtio, Cofio, Adfer

**Eleni, mae gan Amgueddfa Cymru - National Museum Wales raglen gyffrous o arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ystyried y profiad o fyw trwy ryfel a'r effaith a gafodd ar fywydau pobl gyffredin ar draws y wlad, fel yr eglura Emma Routley.**

## Arddangosfeydd

Bydd rhai o'n harddangosfeydd poblogaidd o'r llynedd yn teithio i amgueddfeydd a sefydliadau eraill Amgueddfa Cymru, gan roi cyfle i bobl mewn gwahanol rannau o Gymru eu gweld. Bydd arddangosfa 'Ymdrechion a Delfrydau: Printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf' yn cael ei dangos yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru o fis Ionawr i fis Mai. Mae'r arddangosfa yn arddangos delweddau o bropaganda, yn cynnwys printiau gan rai o artistiaid enwocaf y cyfnod. Bydd 'Gweithio dros Fuddugoliaeth - Diwydiant Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf' yn Amgueddfa Wlân Cymru yn Dre-fach.

Mae Amgueddfa Lechi Cymru yn edrych ar ymateb cymunedau'r chwareli llechi i'r ymgyrch recriwtio yn yr arddangosfa 'Dros Ryddid a'r Ymerodraeth' a gynhelir tan ddiwedd mis Mehefin ac a fydd wedyn yn cael ei harddangos yn Amgueddfa Wlân Cymru.

'Rhyfel: Beth yw ei ddiben?' Yng ngeiriau'r gân, 'dim byd o gwbl'. Ond a yw hynny'n wir? Bydd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn tynnu sylw at y datblygiadau meddygol sydd wedi digwydd yn ystod rhyfeloedd dros y canrifoedd, gan ganolbwyntio ar y rhai a ddatgelwyd gan y Fyddin Rufeinig ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

'Forget me not: Cardiau post o'r Rhyfel Byd Cyntaf': yn ystod y rhyfel daeth cardiau post a chardiau cyfarch yn ffordd allweddol o gyfathrebu rhwng milwyr oedd yn gwasanaethu a'u teuluoedd. O gardiau wedi'u brodio a'u masgynhyrchu a anfonwyd o

Ffrainc i bortreadau ffotograffig o filwyr a darluniau sentimental o gariadon wedi'u gwahanu, mae'r arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn cynnig cipolwg ar brofiadau beunyddiol dynion a merched cyffredin gafodd eu heffeithio gan ryfel.

Mae Gorffennaf yn nodi canmlwyddiant Brwydr Mametz, un o'r brwydrau mwyaf arwyddocaol a mwyaf gwaedlyd a wynebwyd gan filwyr Cymreig. Mae 'Mae Rhyfel yn Uffern! ... Brwydr Mametz Wood mewn Celf' yn agor ym mis Ebrill yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Seren yr arddangosfa fydd llun Christopher Williams, 'Y Cymry ym Mametz Wood', a gomisiynwyd gan Lloyd George i goffáu'r frwydr. Cynhelir cyfres o sgyrsiau oriel i gyd-fynd â'r arddangosfa.

Fel rhan o'r rhaglen gyhoeddus ar gyfer yr arddangosfa mae'r Amgueddfa yn gweithio mewn partneriaeth gydag Opera Cenedlaethol Cymru, Prifysgol Caerdydd a Lleisiau dros Ryfel a Heddwch: Y Ganolfan Ymgysylltu â'r Rhyfel Byd Cyntaf ar 'Dewch i ganu yn yr Amgueddfa - caneuon o'r ffosydd' a gynhelir ym mhrif neuadd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 3 Mehefin. Bydd y digwyddiad yn dod â grwpiau o bob rhan o Gymru, yn Llundain a Portsmouth, cantorion opera o 'In Parenthesis' a chorau lleol at ei gilydd a byddant i gyd yn perfformio detholiad o ganeuon poblogaidd y Rhyfel Byd Cyntaf, yn cynnwys 'Sosban Fach'. Caiff y digwyddiad ei ffrydio'n fyw ar gyfryngau cymdeithasol gan y fforwm ieuenctid o Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Mae Cofeb Mawr yn agor yn Amgueddfa Lechi Cymru yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Mae'r Amgueddfa yn gweithio gyda'r gymuned leol i ddarganfod mwy am y rhai a restrir ar y gofeb ryfel, a bydd rhaglen sgiliau yn cael ei datblygu.

## Cyhoeddiad Castell Sain Ffagan

Ar 22 Mawrth 1916 agorodd y Groes Goch ysbyty ategol mewn neuadd wledda yng Nghastell Sain Ffagan. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y Castell yn gartref i Iarll ac Iarlles Plymouth a fu'n weithgar yn ymdrech y rhyfel. I nodi canrif ers agor yr ysbyty, bydd y llyfr hwn yn amlinellu ei hanes ac yn datgelu rhai o straeon personol y rhai a oedd yn gweithio, yn cryfhau ac yn byw yng Nghastell Sain Ffagan yn ystod y Rhyfel.

Bwriedir cyhoeddi'r llyfr ar gyfer Mawrth 2016.

## Sgyrsiau, Teithiau a Gweithgareddau Teuluol

Mae gan Amgueddfa Cymru raglen ymgysylltu helaeth a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai gwneud printiau, sgyrsiau gan gynnwys 'Ein Hamgueddfa yn ystod y Rhyfel Mawr', sy'n canolbwyntio ar rai o straeon ingol y staff yn ystod y cyfnod, gweithgareddau teuluol, gan edrych ar fwyd a chyfathrebu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a theithiau tywys o gwmpas tiroedd Castell Sain Ffagan, gan daflu goleuni ar hanes cudd y stad yn ystod y cyfnod hwnnw. .

## Treftadaeth Ddigidol

Yn 2016 bydd gwaith yn parhau ar y gronfa ddata ddigidol ar-lein o wrthrychau yn perthyn i'r Rhyfel Byd Cyntaf o gasgliadau'r Amgueddfa ynghyd â deunydd o'r adrannau Celf ac Archaeoleg www.museumwales.ac.uk/first-world-war/

Am fanylion llawn a dyddiadau holl arddangosfeydd a gweithgareddau Amgueddfa Cymru, ewch i www.museumwales.ac.uk neu dilynwch ni ar Twitter @AmgueddfaCymru

(uchod ar y chwith) Perfformiad prosiect Make an Aria yng Nghastell Sain Ffagan © Amgueddfa Cymru - National Museum Wales

(isod) Myfyrwyr yn cymryd rhan ym mhrosiect Gweithdai'r Amgueddfa ar gyfer Swyddogion posibl y Fyddin © Amgueddfa Cymru - National Museum Wales







# Cymru dros Heddwch






## Yn y can mlynedd ers cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf, sut mae Cymru wedi cyfrannu at yr ymchwil am heddwch? Mae Craig Owen yn cynnig rhai cwestiynau ac atebion.

Mae'r prosiect pedair blynedd unigryw hwn a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ac a reolir gan WCIA ynghyd â deg o bartneriaid, yn dwyn cymunedau ac ysgolion ar draws Cymru ynghyd i ystyried pobl, mudiadau a straeon sydd wedi dod yn rhan o'r hunaniaeth Gymreig a, trwy ddysgu am ein 'treftadaeth heddwch', i ysbrydoli cenedlaethau'r dyfodol i weithio dros fyd heb ryfel.

### Cofio dros Heddwch: effaith rhyfel

Yn 1938, agorodd Arglwydd Davies Llandinam a Mrs Minnie James o Ddowlais - mam mewn profedigaeth oedd wedi colli tri o'i meibion yn y Rhyfel Mawr - ddrws Teml Heddwch ac Iechyd newydd Caerdydd ym Mharc Cathays: 'cofeb i'r dewrion hynny o bob cenedl a roddodd eu bywydau yn y rhyfel a oedd i roi diwedd ar bob rhyfel'. Cafodd Llyfr Coffa Cenedlaethol Cymru, oedd wedi'i euro'n hardd, ei osod yn ofalus mewn crypt o dan y Deml, lle mae'n parhau i fod hyd heddiw.



(top) Cafodd Y Pabi Gwyn ei fabwysiadu gan fudiadau merched yn yr 1920au, i wrthwynebu'r cynnydd yn yr ymdrechion i fabwysiadu'r pabi coch ar gyfer recriwtio milwrol. Mae eicon Cymru dros Heddwch yn 'fersiwn modern' sy'n cyfuno'r ddau babi - gan gynrychioli'r ddadl, y ddeialog a'r ddealltwriaeth sy'n sylfaenol i gynnal heddwch rhwng pobl, ar lefel leol i lefel fyd-eang.

Yn ystod gwanwyn 2016, gan weithio gyda'r Llyfrgell Genedlaethol, rydym yn gobeithio cwblhau'r gwaith o ddigideiddio a thrawsgrifio'r Llyfr i'w wneud yn hygyrch i gynulleidfa fyd-eang. Am y tro cyntaf erioed bydd y llyfr yn teithio i leoliadau ar draws Cymru, lle y byddwn yn gweithio gyda chymunedau ac ysgolion i ddarganfod mwy am y bobl y tu ôl i'r enwau. Bydd yr arddangosfa gyntaf yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth o Ionawr i Ebrill 2016; ac wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, gan weithio gyda'r Amgueddfa Genedlaethol, rydym yn gobeithio dod â Llyfrau Coffa Cymru o'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd at ei gilydd.

O wanwyn 2016 - canmlwyddiant y Ddeddf Gwasanaeth Milwrol - byddwn yn edrych hefyd ar straeon gwrthwynebwyr cydwybodol a heddychwyr, ac effaith gorfodaeth filwrol ar gymunedau Cymru - gan gynnwys o fis Mai 2016 arddangosfa deithiol ar y cyd gyda'r Crynwyr yng Nghymru fydd yn edrych ar 'Ffydd a Gweithredu.'



ROYAL WELCH FUSILIERS

Pte. Owen Edwards, Llangollen
Pte. David Ellis, Llanbeblig
Pte. Robert Ellis, Manchester
Pte. Percy Ellison, London
Pte. Frederick Emery, Birkenhead
Pte. Frederick Wm. Emmett, Stalybridge
Pte. Arthur Clarence Evans, London
Pte. Ellis Evans, Trawsfynydd
Pte. John Evans, Bangor
Pte. John Henry Evans, Tredegar
Pte. Richard Evans

Pte. David John Griffiths, Aberhosan
Pte. William Griffiths, Nevin
Pte. Lionel Grove, Watford
Pte. William Harry Gurner, Rhosddu
Sgt. John Williams Guy, Broomhall
Pte. Joseph Hackett, Longton
Pte. John Joseph Hague, Hyde
Pte. Thomas Hankey, Northwich
Pte. Frederick Leslie Harding, London
Pte. Henry Josiah Harris, London
Pte. William George Hart, Birmingham

(chwith ac uchod) Llyfr Coffa Cymru
Mae'r Llyfr yn cynnwys 35,000 o enwau milwyr a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac y tu ôl i bob enw y mae hanes bywyd. Y Milwr Cyffredin, Ellis Evans o Drawsfynydd, yw efallai un o gymeriadau heddwch enwocaf Cymru – fel y bardd Hedd Wyn. Collodd ei fywyd ym mrwydr Passchendaele ychydig wythnosau cyn ennill yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1917 – a daeth ei wobr, y Gadair Ddu, yn symbol o gadeiriau gwag ledled Ewrop, a chenhadaeth ifanc a gollwyd i ryfel. (delwedd ar y chwith © Llyfrgell Genedlaethol Cymru, digidwyd gyda Chanolfan Gymreig Materion Rhyngwladol. Delwedd uchod © Archif Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol).






(chwith) Pererindod Heddwch y Menywod. Ar 27 Mai 1926, disgynnodd 2,000 o fenywod o Eryri ar Benygroes ger Caernarfon yn cario baner las heddwch – a, gydag unigolion o 50 o drefi a phentrefi, cychwynnon nhw ar orymdaith i Lundain. Roeddent yn rhan o fudiad Gymru gyfan oedd yn galw i ffurfio Cynghrair Cenhedloedd. (delwedd © Yr Archif a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor). Yn 2013, yn Llyfrgell y Deml Heddwch (uchod), daethpwyd o hyd i rwymiad ar gyfer deiseb i fenywod America a arwyddwyd gan 390,296 o fenywod ar hyd a lled Cymru. © Archif Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol

## Yr Adeiladwyr Heddwch: etifeddiaeth rhyfel?

Amcangyfrifir bod tua thair miliwn o bobl ym Mhrydain wedi colli perthynas agos yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y blynyddoedd yn dilyn y ddau Ryfel Byd yn gyfnod o newid cymdeithasol mawr, wrth i genedl mewn profedigaeth geisio ailadeiladu bywydau yn dilyn colled ar raddfa bersonol a chenedlaethol. I lawer, arweiniodd erchyllterau rhyfel at benderfyniad i weithio dros heddwch; gan roi sylw i brofedigaeth, cydwybod ac egwyddorion, credoau unigol a gweithredu cymunedol.

Mae mudiadau heddwch wedi bod yn rhan o ysbryd cenedlaethol Cymru - mae'r mudiad merched, yr Urdd, y Crynwyr ac Anghydffurfwyr, Ymgyrchoedd dros Ddiarfogi Niwclear, y mudiad gwrth-Apartheid, ymgyrchwyr dros hawliau sifil a chydraddoldeb i gyd yn rhan o'n treftadaeth heddwch.

Gan ddechrau yng ngwanwyn 2016 gyda'r Urdd a'r Crynwyr, byddwn yn gweithio gyda chymunedau i gasglu'r straeon hyn. Gyda gwirfoddolwyr yn gwneud gwaith ditectif yn archifau ac atigau Cymru, byddwn yn casglu 2,000 o wrthrychau a fydd yn cael eu digideiddio drwy Gasgliad y Werin. Bydd yr arddangosfa 'Cymru o Blaid Heddwch' yn gwau'r 'stori gyfan' hon at ei gilydd, gan deithio o amgylch Cymru yn 2017-18.

## Heddwch yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Rydym yn gobeithio ennyn diddordeb pobl ifanc nid yn unig i gasglu a rhannu'r dreftadaeth hon, ond hefyd i ysbrydoli trafodaeth am y byd heddiw, a gweledigaeth ar gyfer y can mlynedd nesaf.


- Sut wnaeth Cymru groesawu miloedd o ffoaduriaid o Wlad Belg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, ac a oes cymhariaeth â'n hymateb i'r argyfwng yn Syria heddiw?
- Beth ysbrydolodd pobl ifanc Cymru i ddarlledu'r neges gyntaf o heddwch ac ewyllys da i'r byd yn 1922, a beth maen nhw'n teimlo a ddylai'r neges o Gymru fod yn 2016?

Drwy gynadleddau ysgolion, adnoddau dysgu, cyfleoedd i leoli gwirfoddolwyr a hyfforddiant, cysylltiadau â mudiadau ieuenctid rhyngwladol a gwaith ar draws y cenedlaethau yn y cymunedau, rydym yn gobeithio ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o adeiladwyr heddwch a'u helpu i ennill y sgiliau y mae arnynt eu hangen i gasglu, cwestiynu a thrafod treftadaeth heddwch Cymru, ac i greu etifeddiaeth a fydd yn parhau i ysbrydoli ymhen can mlynedd arall.



(uchod) Y Neges Ryngwladol o Heddwch ac Ewyllys Da
Mae neges yr Urdd o Heddwch ac Ewyllys Da, a ddarlledwyd bob blwyddyn ers 1922, yn rhoi cyfle i bobl ifanc Cymru greu ac anfon neges i bobl ifanc ar draws y byd. Yn Eisteddfod yr Urdd Mai 2016 yn y Fflint, bydd arddangosfa yn cael ei lansio ynghyd â galwad am straeon gan bobl sydd wedi bod yn ymwneud â hanes y Neges. Ac wrth weithio gyda phartneriaid gwirfoddoli rhyngwladol megis Cyfnewid UNA, rydym yn gobeithio datblygu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau cyfnewid a negeseuon gan fudiadau ieuenctid ledled y byd. (Craig Owen © Canolfan Gymreig Materion Rhyngwladol)

# ‘Prifysgol Chwyldro’ Iwerddon yng Nghymru: Gwersyll Carchar Fron-goch (1916)



(uchod) Carcharorion rhyfel yng ngwersyll Fron-goch, Sir Feirionnydd, 1914-18 © Archifdy Meirionnydd, Gwasanaeth Archifau Gwynedd 2015

## Yr Athro Paul O’Leary o Brifysgol Aberystwyth sydd yn adrodd stori’r gweriniaethwyr Gwyddelig a garcharwyd yng Ngwersyll Fron-goch, Sir Feirionnydd, yn 1916.

Yn ddigon rhyfedd, hwyrach, mae safle hen ffatri ddistyllu chwisgi mewn pentref bach diarffordd yn y Gogledd wedi gadael marc annileadwy ar hanes Iwerddon. Roedd Fron-goch ger y Bala yn lle annhebygol iawn ar gyfer meithrin chwyldroadwyr Gwyddelig, ond dyna’n union a ddigwyddodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bu’r hyn a ddigwyddodd yno yn ystod 1916 yn gyfrwng i lunio gyrfa wleidyddol rhai o’r dynion allweddol ym mywyd cyhoeddus Iwerddon, ac mae enw Fron-goch yn dal i atseinio yn hanes y frwydr dros annibyniaeth Iwerddon.

Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y Gwyddelod wedi cael addewid o Ymreolaeth ar ôl degawdau o ymgyrchu penderfynol. Math o ddatganoli oedd ‘Ymreolaeth’ a oedd ymhell o fod yn annibyniaeth, ond fe’i derbyniwyd gan genedlaetholwyr prif ffrwd Iwerddon. Dan Ymreolaeth byddai gan Iwerddon ei senedd ei hun ond gan barhau’n rhan o’r Deyrnas Gyfunol. Cefnogwyd ymdrech y rhyfel gan genedlaetholwyr prif ffrwd i ddangos y gallent ymddwyn yn gyfrifol pan fyddent yn eu rheoli eu hunain. Gwirfoddolodd cannoedd ar filoedd o Wyddelod i ymladd yn y fyddin Brydeinig,

a bu farw nifer fawr. Ond oherwydd digwyddiadau wythnos y Pasg 1916, newidiodd y berthynas rhwng y mwyafrif o bobl Iwerddon a Phrydain.

Trefnwyd gwrthryfel arfog gan gorff chwyldroadol bach a elwid yn 'Irish Revolutionary Brotherhood'. Roedd eu syniad hwy o weriniaeth Wyddelig yn mynd dipyn ymhellach na'r cynlluniau cyfyngedig ar gyfer Ymreolaeth. Roedd yn mynnu mai pobl Iwerddon oedd yn berchen tir Iwerddon, ac addawyd cydraddoldeb rhwng dynion a merched. Ar ôl chwe diwrnod o chwalfa gan luoedd grymus Prydain, daeth y gwrthryfel i ben a dienyddiwyd prif arweinwyr y lluoedd gwrthryfelgar. Ond beth allai'r awdurdodau ei wneud â'r gwrthryfelwyr eraill? Cafodd llawer iawn o bobl oedd â chysylltiadau gweriniaethol (a rhai heb ddim cysylltiadau o gwbl) eu cipio, a daethpwyd â thua 1,800 ohonyn nhw i Fron-goch.

Pam Fron-goch, felly? Roedd gan y pentref un nodwedd a oedd yn fuddiol i'r awdurdodau: hen ffatri distyllu chwisgi. Aethai'r cwmni oedd piau'r lle i'r wal yn 1910. Ar ôl cychwyn y Rhyfel Byd Cyntaf trowyd y safle'n garchar ar gyfer Carcharorion Rhyfel yr Almaen, ac yn 1916 penderfynwyd y byddai'r lleoliad anghysbell hwn yn lle delfrydol ar gyfer y carcharorion o Iwerddon. Symudwyd yr Almaenwyr allan i wneud lle i'r Gwyddelod. Roedd y brif reilffordd yn dal i gyrraedd y pentref, a daeth trenau â'r carcharorion newydd i'w cartref dros dro ym mis Mehefin 1916.

Un o'r carcharorion oedd Michael Collins, a ddaeth yn ffigur dylanwadol yn yr IRA (Byddin Gweriniaethol Iwerddon). Roedd yn bwysig yn y digwyddiadau a arweiniodd at hunanlywodraeth i Iwerddon, roedd yn un o'r rhai a fu'n trafod y Cytundeb Eingl-Wyddelig yn 1921, ac roedd yn Brif Gadlywydd y fyddin yng Ngwladwriaeth Rydd Iwerddon. Defnyddiodd Collins ei gyfnod yn Fron-goch i gadarnhau ei arweinyddiaeth yn y mudiad gweriniaethol, a gweithiodd i wella'i sgiliau fel chwyldroadwr yn y gwersyll. Dysgodd wersi 'rhyfela guerilla' i garcharorion eraill, ac roedd hwn yn gyfnod ffurfiannol iawn yn ei fywyd.

Roedd cyflwr y gwersyll yn wirioneddol arswydus. Roedd iddo ddwy ran – Gwersyll y Gogledd a Gwersyll y De – a ffordd yn eu cysylltu. Yr hen adeiladau distyllu eu hunain oedd Gwersyll y De, a nifer o gytiau pren oedd Gwersyll y Gogledd. Mewn llythyr at ei deulu meddai Michael Collins am y lle cyfyng: 'Not too much room to spare!'

Doedd dim llawer o awyr iach yn yr adeiladau hyn, ac roedden nhw'n fudr ac yn denu llygod mawr. Ond er hynny dysgai'r carcharorion wersi i'w gilydd, gan gynnwys yr iaith Wyddeleg, i godi eu calonnau. Roeddent wedi sylwi ar gryfder y Gymraeg ymhlith y bobl leol, rhai ohonyn nhw'n gweithio yn y gwersyll. Daeth Michael Collins yn dipyn o ffrind i fachgen lleol, Robert Roberts, a chafodd eiriadur Cymraeg ganddo i ddysgu Cymraeg.

Câi'r carcharorion yrru un llythyr yr wythnos yn unig, a hwnnw'n cael ei sensro. Ond byddai rhai o'r gwarcheidwaid cyfeillgar yn postio llythyron ychwanegol y tu allan i'r gwersyll ar ran y dynion. Yn wir, byddent yn smyglo nwyddau i mewn ac allan o'r gwersyll gan anwybyddu'r rheoliadau, a byddai'r carcharorion yn aml yn gwrthod cydweithredu â phennaeth y gwersyll.

Aeth rhai o'r carcharorion eraill ymlaen i ddal swyddi yn llywodraethau Iwerddon, ac yn eu plith Arthur Griffith, sylfaenydd Sinn Féin. Yn ddiweddarach roedd yn llywydd senedd Iwerddon, neu Dáil Éireann, yn ystod 1922. Fel cynifer o'r lleill roedd wedi ei ddal gan yr awdurdodau yn Nulyn a'i garcharu. Ond byddai'r bobl hyn yn cael eu chwynnu, ac roedd nifer y carcharorion wedi disgyn yn sydyn erbyn mis Awst 1916.

Gofynnwyd cwestiynau yn y senedd ynglŷn â'r amodau yn y gwersyll, gan godi cywilydd ar y llywodraeth. Yn y diwedd gwacawyd y lle ym mis Rhagfyr 1916 pan ddaeth David Lloyd George yn brif weinidog. Byr fu cyfnod y Gwyddelod yn Fron-goch, ond parhaodd y canlyniadau am amser maith. Daethpwyd i adnabod Fron-goch fel 'Prifysgol Chwyldro' a thyfodd yn symbol o gyfnod o chwyldro yn hanes Iwerddon. Prin y gall yr un ffatri ddistyllu segur arall hawlio hynny.




(uchod) Plac coffa ar safle Fron-goch © Hawlfraint y Goron

# Cadw ein cofebau rhyfel

## Mae rhan bwysig gan gofebau rhyfel cymunedol i'w chwarae wrth goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac mae cynllun grantiau a chanllawiau cadwraeth Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) yn cydnabod hynny drwy helpu i'w cynnal a'u cadw ar gyfer y dyfodol.




(uchod) Ken Skates AC, Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, ger Cofeb Rhyfel adnewyddedig Llanilltud Fawr © Hawlfraint y Goron (2015) Cadw

Mae hyd at 5,000 o gofebau rhyfel yng Nghymru ac maen nhw'n darparu lle penodol i deuluoedd a chymunedau gyfarfod i gofio. Maen nhw i'w cael ym mhob cymuned bron ac maen nhw'n coffáu pobl o'r ardal honno. Mae gofalu am y cofebau hyn yn ddull o dalu gwrogaeth i'r miloedd o ddynion a menywod cyffredin Cymru a gafodd eu heffeithio gan ryfel.

Tra bo Cymru'n cofio canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, maen nhw'n bwysicach fyth. Daeth pobl at ei gilydd i godi arian i'w hadeiladu nhw. Mae pobl wedi galaru wrth eu traed ers talwm iawn. Mae atgofion personol ynghlwm â'r cofebau hyn, ac maen nhw'n parhau i fod yn rhan bwysig o ymwybyddiaeth ein cymunedau o'u hanes eu hunain hyd heddiw.

Nid yw pob cofeb yn blac neu'n gerflun. Mae llawer o barciau, ysbytai a neuaddau coffa yng Nghymru, a adeiladwyd ag arian a roddwyd gan y cyhoedd. Mae'r rhain i gyd yn rhan o waddol cofio ein cymunedau.

Cydweithiodd Cadw â'r Ymddiriedolaeth Cofebion Rhyfel i gyhoeddi canllawiau newydd yn benodol ar gyfer helpu cymunedau i ofalu am eu cofebau. Ym mis Ebrill 2014, lansiwyd cynllun grantiau'n cynnig cymorth ariannol ar gyfer gwaith cadwraeth. Amcan y canllawiau a'r cynllun grantiau yw diogelu ein cofebau rhyfel, gan helpu cymunedau i'w hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw wedyn, a thrwy hynny sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn rhan o fywydau ein cymunedau yn y dyfodol.

Mae nifer o gofebau rhyfel eisoes wedi elwa ar gynllun grantiau Cadw:

Mae **cofeb ryfel Llanilltud Fawr** wedi'i rhestru'n radd II ac fe'i hadeiladwyd yn 1921. Mae mewn safle amlwg ar fin y ffordd yng nghanol y pentref. Mae'r gofeb wedi'i llunio o garreg dywod ar ffurf croes Geltaidd, a saif ar bedwar gris carreg o'r canol oesoedd, gyda rheiliau haearn o'i chwmpas. Mae plac efydd ar waelod y groes gydag enwau'r rhai a fu

farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf wedi'u hysgrifennu arno. Ar du blaen y groes, ceir 'Llyfr Anrhydedd' o farmor gwyn ag enwau'r rhai a fu farw yn yr Ail Ryfel Byd wedi'u hysgrifennu arno. Mae'r gofeb yn coffáu trigolion a fu farw a'r rhai a ddiflannodd ar faes y gad, heb wybod beth ddigwyddodd iddynt.

Yn dilyn cais gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr, ym mis Ebrill 2014 cawsant grant o £1,662 gan Cadw i adnewyddu'r llythrennau nad oedd modd eu darllen bellach, gan sicrhau nad oedd yr enwau pwysig hyn a oedd wedi eu coffáu ar y gofeb yn mynd yn angof.

Mae **cloc a chlychau coffa Castell-nedd** yn Eglwys Dewi Sant yng Nghastell-nedd hefyd wedi elwa ar gyllid gwerth bron i £10,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru i'w hadfer a'u diogelu nhw ar gyfer y dyfodol.

Mae Eglwys Dewi Sant wedi'i rhestru'n radd II* ac fe'i hadeiladwyd rhwng 1864 a 1866. Mae'r gofeb yn Nhŵr Vaughan yr eglwys, sydd mewn safle amlwg wrth ochr yr heol yng nghanol Castell-nedd. Cloc a chanddo bedwar wyneb, a chlychau'n canu ar yr awr, yw'r gofeb, gydag un wyneb fesul ochr i'r tŵr. Fe'i gosodwyd yn y tŵr i gofio'r dynion o'r dref a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r arian wedi talu am adfer wynebau'r cloc, ei fecanwaith a gwaith dur sy'n cynnal y clychau.

Mae **Cloc Coffa Cymunedol Trewalchmai** ar Ynys Môn yn cynnwys enwau, cyfeiriadau ac oedran holl aelodau'r lluoedd arfog o'r ardal a fu farw yn y ddau Ryfel Byd. Mae'r cloc yng nghanol y pentref ac yn ganolbwynt iddo. Mae cyllid gwerth £10,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi helpu i warchod dyfodol y gofeb drwy dalu am waith atgyweirio i dŵr y cloc ac adfer mecanwaith y cloc.

Mae cofebau eraill sydd wedi elwa ar gyllid gan y cynllun yn cynnwys Cofeb Ryfel Prestatyn yn Sir Ddinbych a'r Gofeb ar safle'r hen Neuadd Ymarfer yng Nghasnewydd.

I gael rhagor o fanylion ynglŷn â chynllun grantiau Cadw ar gyfer Cofebau Rhyfel, a fydd yn gweithredu gydol y cyfnod cofio, ewch i: http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/grantsforwarmemorials/?skip=1&lang=cy



(i'r dde) Cofeb Ryfel Llanbedr Pont Steffan © Hawlfraint y Goron (2015) Cadw

# Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ac 1914.org

CANMLWYDDIANT Y RHYFEL BYD CYNTAF

ARWEINIWYD GAN **IWM**

**Rhaglen dan arweiniad yr Imperial War Museums yw Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ar gyfer pob sefydliad dielw sy'n nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf (2014 - 2018). Erbyn 19 Tachwedd 2015, roedd gennym 3,489 o sefydliadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn aelodau mewn 57 o wledydd. Mae'r rhain yn cynnwys amgueddfeydd, archifdai, llyfrgelloedd, prifysgolion, colegau, mudiadau perfformio a chelfyddyd weledol. Yn ychwanegol at hyn mae hefyd yn cynnwys llysgenadaethau, swyddfeydd llywodraeth, a grwpiau sydd â diddordeb arbennig a grwpiau cymunedol.**

Trwy ymuno â'r Bartneriaeth, gall sefydliadau dielw weithio'n strategol gyda llais unedig i goffáu'r canmlwyddiant eiconig hwn gyda chynulleidfa eang ac amrywiol.

Mae modd i aelodau ddefnyddio logo Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ochr yn ochr â'u brand nhw, fel delwedd sy'n tynnu sylw at eu digwyddiadau a'u cynhyrchion anfasnachol sy'n rhan o ddigwyddiadau sy'n cydnabod canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Fel aelod o'r Bartneriaeth, byddwch yn cael mynediad at wefan allrwyd arbennig sef www.1914.org/partnership fydd yn galluogi pawb o'r aelodau i rannu syniadau ac arbenigedd. Mae hefyd yn cynnig cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynllun, cyfle i ofyn cwestiwn, rhannu adnoddau a ffurfio partneriaethau ar gyfer gweithgareddau sydd i'w cynnal. Gallwch hefyd ychwanegu manylion am eich digwyddiadau ar galendr 1914.org sydd ar agor i'r cyhoedd.




(uchod) © IWM

I ymuno â Phartneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, ewch i www.1914.org/partnership i gofrestru. Mae'r cyfan am ddim a chaiff mwy nag un person o bob sefydliad gofrestru.

## Adnoddau:

Ymhlith yr adnoddau sydd ar gael, mae arddangosfa 'Gwnewch y cyfan eich Hun' sy'n cynnwys ffotograffau, delweddau o wrthrychau, celf a dogfennau, darnau byr o ffilm, clipiau sain, llinellau amser, dogfennau ymchwil i gynulleidfaoedd, dogfennau cyfeiriol, canllawiau defnyddiol ac adnoddau ar-lein eraill.


## Mae'r canllawiau hylaw hyn yn cynnwys y meysydd canlynol:

Celf, Casgliadau ac Ymchwil, Gwerthusiad, Cyfathrebu, Dysgu a Dehongli a Chyfryngau Cymdeithasol.

## 2016

## Cyfarfodydd Partneriaeth y Canmlwyddiant:

Cynhelir tri chyfarfod o Bartneriaeth y Canmlwyddiant yn 2016. Mae'r rhain yn cynnig cyfle gwych i rwydweithio gyda chyd-aelodau'r Bartneriaeth ac i rannu adnoddau. Cynhelir y cyfarfod yng Nghymru ar 28 Ionawr 2016. Bydd y cyfarfodydd yng Ngogledd Iwerddon ac Iwerddon yn digwydd yn yr hydref. Bydd nifer o siaradwyr yn annerch yn y cyfarfod yng Nghymru ac maen nhw'n cynrychioli sefydliadau cenedlaethol a phrosiectau lleol. Bydd cyfle hefyd i wylio ffilm 'Battle of the Somme' (1916) a thrafod cynlluniau ar gyfer y dyfodol.



## Blwyddyn y Ffilm:

Bydd 2016 yn nodi 100 mlynedd ers rhyddhau 'Battle of the Somme', sef ffilm ddogfen a drawsnewidiodd brofiadau gwylwyr mewn sinemâu ym Mhrydain ac a gyfareddodd filiynau gyda'r darlun o fywyd ar y Ffrynt. Ym Mhrydain, gwelwyd y ffilm gan 22 miliwn o bobl, bron i hanner y boblogaeth, ac fe'i dosbarthwyd o amgylch y byd.

Uchelgais yr Imperial War Museums yw ail-greu'r berthynas dorfol hon gyda'r ffilm 'Battle of the Somme' yn 2016 trwy sicrhau bod y ffilm ac amrywiaeth o adnoddau eraill ar gael i aelodau'r Bartneriaeth ledled y byd. O 1 Gorffennaf 2016 hyd 15 Gorffennaf 2017, bydd aelodau o Bartneriaeth y Canmlwyddiant yn gallu sgrinio'r ffilm 'Battle of the Somme' mewn lleoliad o'u dewis nhw.

(llun yn y cefndir) Llun llonydd o'r ffilm Battle of the Somme (1916). © IWM Q 79501

# Ffynonellau Cyllid – Prosiectau Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf



© Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Os ydych yn cynllunio prosiect i goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf yng Nghymru, dyma rywfaint o gyngor i chi ynghylch sefydliadau a all gynnig grantiau a chymorth ariannol arall.**

## Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw'

Mae rhaglen 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw' Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn darparu grantiau sy'n werth rhwng £3,000 a £10,000 er mwyn i gymunedau goffáu Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae cyllid ar gael i helpu grwpiau, cymunedau a sefydliadau neu fudiadau i goffáu'r Canmlwyddiant drwy archwilio, gwarchod a rhannu treftadaeth y Rhyfel Byd Cyntaf – o gofebau, adeiladau a safleoedd i ffotograffau, llythyrau a llenyddiaeth. Mae'n rhaglen dreigl, sy'n golygu y gallwch wneud cais unrhyw bryd, a bydd y ceisiadau a ddaw i law'n cael eu hasesu cyn pen wyth wythnos.

Ewch i'w gwefan ar gyfer ffurflenni cais, arweiniad ac esiamplau prosiectau *http://cymraeg.hlf.org.uk*
neu ebost: *cymru@hlf.org.uk*

## Rhaglen 'Ein Treftadaeth' – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Ein Treftadaeth' ar gyfer unrhyw fath o brosiect sy'n ymwneud â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol neu leol yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £100,000.

Croesewir ceisiadau gan sefydliadau neu fudiadau dielw, perchnogion preifat treftadaeth (gan gynnwys unigolion a sefydliadau neu fudiadau dielw) a phartneriaethau.
*http://cymraeg.hlf.org.uk*

## Gwreiddiau Ifanc – Cronfa Dreftadaeth y Loteri

Mae'r rhaglen 'Gwreiddiau Ifanc' ar gyfer prosiectau sy'n ceisio cael pobl ifanc 11–25 oed i ymwneud â'u treftadaeth yn y DU. Mae grantiau ar gael sy'n werth rhwng £10,000 a £50,000 i ariannu partneriaethau rhwng treftadaeth a sefydliadau neu fudiadau ieuenctid, er mwyn helpu pobl ifanc i lunio a gweithredu eu prosiectau eu hunain mewn amgylcheddau diogel.
*http://cymraeg.hlf.org.uk*

## Cadw, Grantiau ar gyfer Cofebau Rhyfel yng Nghymru

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel, a bydd yn helpu i ddiogelu cofebau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae grantiau sy'n werth hyd at 70% o'r costau cymwys (hyd at uchafswm o £10,000) ar gael i warchod ac atgyweirio cofebau rhyfel.

Yn ogystal â'r cynllun hwn, mae Cadw hefyd yn cynnig grantiau eraill er mwyn cyfrannu at gostau atgyweirio ac adfer asedau hanesyddol, ac mae'n darparu cyllid cyfatebol ar gyfer prosiectau a gaiff eu harwain gan gymunedau, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad, ewch i'r adran Cymorth, Cyngor a Grantiau ar wefan Cadw:
*www.cadw.wales.gov.uk*

## Yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel

Mae grantiau i atgyweirio a gwarchod cofebau rhyfel ar gael gan yr Ymddiriedolaeth Cofebau Rhyfel.

Gall yr ymddiriedolaeth ddarparu cyngor hefyd ynghylch dulliau priodol o warchod cofebau. *www.warmemorials.org* neu drwy Ffonio *020 7233 7356*.

## Cynllun Grantiau Cofebau

Gallai cymorth ychwanegol fod ar gael drwy'r cynllun hwn a gaiff ei redeg gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yng Nghymru a Lloegr, sy'n ad-dalu'r TAW y mae'n rhaid ei thalu wrth adeiladu, atgyweirio a chynnal a chadw cofebau.
*www.memorialgrant.org.uk*

## Cynllun Grantiau Bach Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru

Dan y cynllun hwn caiff grantiau sy'n werth hyd at £5,000 eu cynnig i amgueddfeydd yng Nghymru, ddwywaith y flwyddyn, a rhoddir blaenoriaeth i gefnogi prosiectau llai o faint. Mae prosiectau llwyddiannus yn cynnwys prosiectau sy'n ymwneud â gwaith gwarchod, darparu offer arbenigol, gwasanaeth allgymorth a chyfleoedd dysgu gydol oes, datblygu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a darparu cyngor proffesiynol. Rhaid bod amgueddfeydd wedi'u Hachredu a rhaid eu bod wedi ymaelodi â'r Ffederasiwn. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r dudalen Grantiau ar y wefan ganlynol:
*www.welshmuseumsfederation.org*

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Os oes dimensiwn diwylliannol neu artistig yn perthyn i brosiect, gallech chi wneud cais am gymorth gan Gyngor Celfyddydau Cymru *www.celfcymru.org.uk* Mae'r sefydliad hwn hefyd yn cynnig cyngor ynghylch sut i wneud cais am gyllid ac yn rhoi manylion nifer o ffynonellau eraill o gyllid sydd ar gael i sefydliadau neu fudiadau ac unigolion ym maes y celfyddydau.

## Ysgolion

Diolch i gyllid newydd gan Lywodraeth Cymru, mae gan bob ysgol uwchradd yng Nghymru gyfle i wneud cais am hyd at £1,000 i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Gall pob ysgol benderfynu beth yw'r ffordd orau o wneud hynny, a gallent weithio gydag ysgolion eraill hefyd ac ymgymryd â phrosiectau ar y cyd. Os oes gan ysgolion ddiddordeb mewn cyflwyno cais, dylent anfon e-bost i'r cyfeiriad canlynol:
*FWWCommemorationGrant@Wales.gsi.gov.uk*
er mwyn cael pecyn i wneud cais am grant.

Yn ogystal â'r cyrff cyhoeddus a restrir yma, mae'n bosibl y bydd elusennau preifat neu fusnesau masnachol yn barod i gefnogi prosiectau coffáu, yn enwedig os oes ganddynt gysylltiad uniongyrchol â'r elusen neu'r busnes.

Gellir cael cymorth ar-lein i ddod o hyd i gyrff sy'n cynnig grantiau ar *www.grantnet.com* ac mae'r Sefydliad Cymorth Elusennau yn cyhoeddi cyfeiriadur rheolaidd o ymddiriedolaethau sy'n cynnig cymorth grant. Mae'r cyfeiriadur ar gael yn aml mewn llyfrgelloedd lleol.

Dewch i ddarganfod mwy am y modd y mae Cymru yn coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf ac am ffyrdd eraill y gallwch gymryd rhan: *www.cymruncofio.org.uk*

# Digwyddiadau

**Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol am ddigwyddiadau a drefnwyd gan gyrff, unigolion neu grwpiau allanol. Mae'n bosib y bydd rhaid neilltuo lle neu dalu i gael mynediad i rai digwyddiadau. Cysylltwch â threfnwyr y digwyddiad yn uniongyrchol am fanylion pellach.**

## TACHWEDD 2013

### 28 Tach 2013 - 11 Tach 2018

### Lansiad Arddangosfa Ddigidol y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd

Merthyr Tudful

http://merthyrww1.llgc.org.uk/cy/items/show/13

Yn ystod digwyddiad yn Y Coleg Merthyr Tudful ar ddydd Iau, 28 Tachwedd lansiodd John Griffiths AC, y cyn Weinidog Diwylliant a Chwaraeon, arddangosfa ddigidol Y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd, a grëwyd gan yr hanesydd Dr Paul O'Leary o Brifysgol Aberystwyth.

Mae'r arddangosfa'n ymdrin â chyfres o ddigwyddiadau penodol ym Merthyr Tudful a Chwm Cynon a hefyd yn ystyried sut gallwn goffáu'r gyfres amrywiol a dadleuol o ddigwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod 1914-18.

Mae'n amlygu ar brofiad dirdynnol bywyd yn y ffosydd ond mae hefyd yn sôn am y gwrthwynebiad at y rhyfel a'i effaith ar fywyd y tu allan i'r fyddin. Mae'r 'Ymgyrch Gartref' yn rhan bwysig o'r arddangosfa. Tynnir sylw at sut newidiwyd bywydau menywod gan y rhyfel a sut gohebwyd ar ddigwyddiadau dadleuol megis streic y glowyr yn 1915. Mae hefyd yn taflu goleuni ar y 'bwgan ysbïo' 1914 a dyfodiad grwpiau o ffoaduriaid o Wlad Belg.

Bydd cyflwyniad ar-lein Dr O'Leary yn aros yng Ngholeg Merthyr Tudful er budd y staff a'r myfyrwyr. Mae'r arddangosfa'n defnyddio llawer iawn o ddeunyddiau a gafodd eu digideiddio fel rhan o'r archif ddigidol ar-lein Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig, gafodd ei lansio yn yr un digwyddiad (gweler http://www.cymruncofio.org/the-national-library-of-wales-launches-the-welsh-experience-of-the-first-world-war/).

Dywedodd y Gweinidog: "Ffrwyth cydweithio helaeth rhwng sefydliadau lleol a chenedlaethol yw'r arddangosfa ddigidol hon. Bydd yn helpu ein cymunedau i ddeall yn well effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'r newidiadau parhaus i'r gymdeithas yng Nghymru."

"Mae'n gyfraniad pellach i'r rhaglen eang i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf sy'n cael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru."

Datblygwyd Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig gan bartneriaeth wedi ei harwain gan Llyfrgell Genedlaethol Cymru gydag Archifau a Chasgliadau Arbennig Cymru (sef Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, BBC Cymru Wales, Casgliad y Werin Cymru a swyddfeydd archifau a chofnodion lleol Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru sydd dan adain Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru. Ariannwyd y prosiect gyda chymhorthdal £500,000 o gynllun e-Gynnwys Jisc fel rhan o'u gwaith i gefnogi addysg ac ymchwil, a gyda chefnogaeth y sefydliadau sy'n bartneriaid.

## AWST 2014

### 1 Awst 2014 - 11 Tach 2018

### Arddangosfa Deithiol – "Gwent yn y Rhyfel Mawr"

Amryw leoliadau yng Ngwent

www.cymruncofio.org

Trefnwyd yr arddangosfa hon gan gangen Gwent o Gymdeithas Ffrynt y Gorllewin, ac mewn partneriaeth â CyMAL ac Archifau Gwent.

Bydd modd gweld yr arddangosfa deithiol hon mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Gwent yn ystod y cyfnod coffáu a fydd yn para pedair blynedd.

Cysylltu: strong@btinternet.com neu 01291 425638

## TACHWEDD 2015

### 15 Tach 2015 9:00yb - 30 Ebr 2016 5:00yp

### Er Cof am ein Harwyr o'r Rhyfel Byd Cyntaf

Llyfrgell Llandysul, Llandysul, Ceredigion, SA44 4QS

www.hanesllandysulhistory.co.uk

Arddangosfa sydd wedi'i chyflwyno i bob un o Landysul a'r cylch a wasanaethodd yn y Rhyfel.

Mae'r arddangosfa ar lawr cyntaf Llyfrgell Llandysul (mae lifft ar gael).

Dydd Llun i Ddydd Gwener 9am - 5pm a dydd Sadwrn 10am - 1pm. Mynediad am ddim.

Ar ddangos mae rhai o'r 390 o ddynion a gwragedd o'r ardal a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae ein harddangosfa'n cynnwys ffotograffau, erthyglau o bapurau newydd ac atgofion perthnasau.

Mae gofod arddangos cyfyngedig yn golygu ein bod ni ond yn medru arddangos nifer fechan o wrthrychau. Edrychwch yn ein Ffolderi Archif lle y cewch hyd i'r wybodaeth rydym wedi dod o hyd iddi.

Mae ymchwilwyr gwirfoddol yn

parhau i weithio ar y prosiect. Os oes gennych rhagor o wybodaeth ar y gwrthrychau sydd ar ddangos yma, neu ynghylch unigolion nad ydym wedi eu cofnodi hyd yma, cysylltwch â ni a byddwn yn falch o'u cynnwys yn ein Harchif.

Cyswllt: hanesllandysul@gmail.com

## AWST 2015

### 22 Awst 2015 9:30yb - 31 Ion 2016 5:00yp

**Dai a Tomi**

Amgueddfa Wlân Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/gwlan/ymweld/

Roedd sgiliau cloddio glowyr Cymru yn allweddol wrth dwnelu yn y ffosydd – dyma adrodd eu straeon personol nhw. Bydd cyfle i gymunedau lleol gyfrannu hefyd drwy adrodd eu straeon nhw a'u teuluoedd am bob agwedd o'r rhyfel.

## HYDREF 2015

### 10 Hyd 2015 - 13 Mawrth 2016

**Pabi'r Coffáu**

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol Abertawe, SA1 3RD

www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe

Arddangosfa hanes natur yn edrych ar y pabi a'i bwysigrwydd fel symbol coffáu.

Arddangosfa deithiol gan Amgueddfa Cymru.

## TACHWEDD 2015

### 11 Tach 2015 10:00yb - 21 Chwef 2016 4:30yp

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Cofio**

Pierhead Street, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

www.assembly.cymru

Dysgwch am hanesion cudd y milwyr a frwydrodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'u teuluoedd, wedi'u hadrodd drwy leisiau eu disgynyddion.

Mae Aelodau'r Cynulliad a staff y Comisiwn wedi chwilio drwy hanesion eu teuluoedd am straeon am eu perthnasau a oedd yn rhan o'r rhyfel. Mae'r arddangosfa hon yn cynnwys amrywiaeth eang o ffotograffau a chardiau post at anwyliaid, yn ogystal ag eitemau sy'n cynnwys darn o fisged, bidog Ffrengig, llyfrau sgrap, darnau o bapurau newydd a sawl peth arall diddorol.

Gobeithio y bydd yr arddangosfa hon yn ysbrydoli ein hymwelwyr i ddychwelyd adref ac ymchwilio i hanes eu teuluoedd eu hunain a sut yr oeddent yn rhan o'r Rhyfel Mawr.

---

### 30 Tach 2015 - 11 Chwef 2016

**Angau o'r Awyr**

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Stryd Fawr, Caerllion, Casnewydd, NP18 1AE

www.amgueddfacymru.ac.uk/rufeinig

Ers cyn cof, rydyn ni wedi bod yn chwilio am y ffordd orau o ladd ein gilydd. Er bod magnelau, sef arfau saethu, yn gallu bod yn wrthrychau cain, maen nhw'n achosi poen a dioddefaint enbyd…

Bydd yr arddangosfa hon yn edrych ar ddatblygiad arfau a thaflegrau ymladd o bell; o fwa a saeth yr hen fyd i ddrylliau peiriant a magnelau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Byddwn ni hefyd yn edrych ar effaith seicolegol a chorfforol y math yma o ryfela.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Amgueddfa ar 0300 111 2 333 neu rhufeinig@amgueddfacymru.ac.uk

## RHAGFYR 2015

### Rhag 2015 - Rhag 2016

**Wynebau'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon Caernarfon, Gwynedd

www.rwfmuseum.org.uk

Casglu ac arddangos manylion a ffotograffau pob Ffiwsilwr Brenhinol Cymreig a syrthiodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Chwiliad ledled y wlad am ffotograffau a gynorthwywyd gan gymdeithasau hanesyddol, prosiectau cofebion rhyfel, archifau sirol ac ysgolion yn ogystal â gwirfoddolwyr i ddod o hyd i bron 11,000 o ffotograffau o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Helpwch ni i ddod â'r hogiau yma yn ôl ynghyd – am byth.

Cysylltwch â ni ar 01286 673362 neu ar rwfmuseum1@btconnect.com os ydych yn medru ein helpu, neu os oes ymholiad gennych.

---

### Rhag 2015 - Rhag 2016

**Gweithdai Rhyfel Byd Cyntaf i ysgolion**

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd

www.rwfmuseum.org.uk

Rydym yn cynnig gweithdai rhad ac am ddim i ysgolion ar destun y Rhyfel Byd Cyntaf. Gall y dosbarth cyfan wisgo fel 'Tommy' Rhyfel Byd Cyntaf a thrafod arteffactau real ac atgynyrchiadau.

Cysylltwch â ni am ragor o fanylion ar 01286 676463 neu rwfmuseum1@btconnect.com.

(llun yn y cefndir) Sieliau'n ffrwydro yng Nghoedydd Mametz. Drwy garedigrwydd Jonathan Hicks.

### 7 Rhag 2015 - 31 Ion 2016

**Gwaith a Buddugoliaeth: Diwydiant Cymru a'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru

www.amgueddfacymru.ac.uk/bigpit

Ar daith o Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Arddangosfa yn edrych ar effaith y rhyfel ar ddiwydiant yng Nghymru.

0300 111 2 333
bigpit@amgueddfacymru.ac.uk

## IONAWR 2016

### 25 Ion 2016 - 26 Chwef 2016

**Arddangosfa Deithiol y Cymry yn Gallipoli - Neuadd Gregynog, Sir Drefaldwyn**

Neuadd Gregynog, Tregynon, Y Drenewydd, Powys, SY16 3PW

www.gregynog.org

Mae'r arddangosfa'n adrodd hanes y milwyr Cymreig a fu'n gwasanaethu trwy gydol ymgyrch Gallipoli. Canolbwynt yr arddangosfa yw hanes 'Hogiau Chwarel' Penmaen-mawr, milwyr Tiriogaethol a oedd yn gweithio yn y chwarel leol. Bu iddynt gyrraedd Suvla Bay ar 9 Awst 1915 ac i ryfel y diwrnod canlynol. Wrth i'r arddangosfa deithio bydd hefyd yn adrodd hanesion dynion o rannau eraill o Gymru a fu'n ymladd yn Gallipoli.

Bydd elfennau craidd yr arddangosfa'n cynnwys paneli teithio dwyieithog, deunyddiau digidol ategol sydd ar gael ar wefan Casgliad y Werin Cymru, llyfryn coffa a deunyddiau addysgol.

Mae'r arddangosfa wedi cael ei datblygu gan Mrs Anne Pedley, un o ymddiriedolwyr Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.

Bydd yr arddangosfa'n ymweld â'r lleoliadau canlynol:

Amgueddfa Penmaenmawr, Conwy
(10 Awst – 11 Medi)

Tŷ Ladywell yn y Drenewydd
(15 Medi – 8 Hydref)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth
(13 Hydref – 3 Tachwedd)

Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol yn Aberhonddu
(6 Tachwedd – 28 Tachwedd)

Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd
(7 Rhagfyr – 20 Ionawr)

Neuadd Gregynog, Sir Drefaldwyn
(25 Ionawr – 26 Chwefror)

Am ragor o fanylion ar yr arddangosfa yn Neuadd Gregynog, ger Y Drenewydd ym Maldwyn, cysylltwch â Neuadd Gregynog ar 01686 650224. Bydd yr arddangosfa ar agor rhwng 10yb a 5yp ar ddydd Llun – ddydd Gwener rhwng 25 Ionawr a 26 Chwefror. Noder fod Neuadd Gregynog yn argymell fod ymwelwyr yn cysylltu â'r Neuadd o flaen llaw er mwyn sicrhau fod yr adeilad ar agor i'r cyhoedd ar y diwrnod rydych chi'n meddwl ymweld ag ef.

## CHWEFROR 2016

### 2 Chwef 2016 10:00yb - 1 Awst 2016 5:00yp

**Dinbych-y-pysgod a'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Amgueddfa ac Oriel Gelf Dinbych-y-pysgod, Rhiw'r Castell, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro, SA70 7BP

www.tenbymuseum.org.uk

Arddangosfa sy'n archwilio effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar dref Dinbych-y-pysgod tra'n rhoi'r digwyddiadau lleol hyn mewn cyd-destun hanesyddol ehangach. Mae'r themâu a archwiliwyd yn amrywio o ddefnyddio teipiadur i fywyd yn y ffosydd, tanciau, ffoaduriaid, blacowts, amaethyddiaeth a dathlu'r heddwch i enwi rhai. Bydd yr arddangosfa yn cynnwys cyfres o baneli dwyieithog ynghyd â chyfres o arteffactau, deunyddiau wedi'u hail-greu, ffotograffau, llythyrau a phethau cofiadwy personol. Hefyd, bydd yna adran a grewyd gan ddisgyblion o'r ysgolion uwchradd lleol, sy'n archwilio barn gyfredol am y rhyfel gan fyfyrwyr can mlynedd ar ôl dechrau'r rhyfel a fyddai wedi bod tua'r oedran consgripsiwn. Mae'r arddangosfa, ynghyd â'r cyhoeddiad Tenby Remembers wedi cael eu hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

### 17 Chwef 2016 11:00yb - 17 Chwef 2016 3:00yp

**"From Me to You" - Cardiau Post a Phropaganda'r Rhyfel Byd Cyntaf**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, cardiau post yn aml oedd yr unig ffordd y gallai milwyr gyfathrebu gyda'u teuluoedd. Mae'r cardiau post hyn yn adrodd straeon ac yn dangos i ni sut roedd rhyfel yn effeithio ar fywydau pobl.

Dewch i weld a chael y cyfle i drin rhai o'r cardiau post sydd yn ein casgliadau ond gall teuluoedd hefyd gael ysbrydoliaeth o'r rhain a chreu cardiau post eu hunain i'w hanfon at filwyr sy'n gwasanaethu.

# MAWRTH 2016

### 1 Mawrth 2016 ac 18 Ebr 2016

**Gweithgaredd teulu: Creu medal**

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd

www.rwfmuseum.org.uk/cym/

Dewch i ymweld â'n galeri medalau a Chroesau Fictoria Rhyfel Byd Cyntaf. Gall blant creu medal eu hunain a'i chymryd adref. Gweithgaredd rhad ac am ddim a mynediad am ddim i'r Castell. Bydd sesiynau'n rhai galw heibio rhwng 10yb a 4yp ar y naill ddiwrnod a'r llall.

---

### 5 Mawrth 2016 12:30yp - 5 Mawrth 2016 1:30yp

**Galw i Gof**

Firing Line, Amgueddfa'r Milwr Cymreig, Castell Caerdydd, Stryd y Castell, Caerdydd, CF10 3RB

www.cardiffcastlemuseum.org.uk

Fel rhan o brosiect Caerdydd yn Cofio, bydd Gwyn Prescott yn trafod ei lyfr "Call them to Remembrance." Mae'r llyfr yn cynnwys storïau am y Chwaraewyr Rygbi Cymreig a fu farw yn y Rhyfel Mawr.

# EBRILL 2016

### 30 Ebr 2016 12:00yp - 2 Mai 2016 3:30yp

**Cardiau post N'ad fi'n angof**

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol, Abertawe, SA1 3RD

www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/

Trwy gael ysbrydoliaeth o'r cardiau post diffuant a anfonwyd i ac o'r ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gwnewch eich cerdyn post eich hun gan ddefnyddio technegau brodwaith neu liwio syml. Bydd cyfle hefyd i drin rhai o'r cardiau gwreiddiol.

Gweithdy galw heibio.

Am ragor o fanylion cysylltwch â'r amgueddfa yn uniongyrchol ar 0300 111 2 333 neu drwy e-bost: waterfront@museumwales.ac.uk

# MAI 2016

### 6 Mai 2016

**Brwydr Mametz Wood**

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP

www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/

I gyd-fynd â'r arddangosfa "War's Hell!" Brwydr Mametz Wood mewn Celf, bydd y sgwrs yn cyflwyno hanes Brwydr Mametz Wood a gweithredoedd y milwyr Cymreig yng nghyd-destun ehangach cyrch y Somme. Yr Athro Chris Williams, Pennaeth Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, Prifysgol Caerdydd, fydd yn traddodi'r ddarlith.

Amser i'w gadarnhau – Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Amgueddfa os gwelwch yn dda ar 0300 111 2 333 neu drwy e-bost: caerdydd@amgueddfacymru.ac.uk

---

### 13 Mai 2016 7:15yh

**In Parenthesis**

Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL

www.wmc.org.uk/Productions/2016-2017/WNO/259317/

Perfformiad cyntaf y Byd
Cerddoriaeth gan Iain Bell
Libretto gan David Antrobus ac Emma Jenkins (ar ôl David Jones)

Mae In Parenthesis yn addasiad gan y cyfansoddwr ifanc Prydeinig, Iain Bell, o gerdd epig bardd, awdur ac artist o Gymru, David Jones. Comisiynwyd In Parenthesis gan Ymddiriedolaeth Nicholas John gyda 14-18 NOW, rhaglen ddiwylliannol yn y DU i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r milwr John Ball a'i gydfilwyr yn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn cael eu hanfon i'r Somme. Yng Nghoed Mametz maent yn dod i le rhyfedd – y tu hwnt i amser, fel breuddwyd, ond yn angheuol. Yn hytrach na dim ond adrodd straeon am erchyllterau'r Somme, mae In Parenthesis yn meiddio cynnig gobaith. Hyd yn oed yng nghanol yr holl ddinistr, mae adfywiad ac aileni bregus i'w canfod. Mae sgôr hyfryd Bell yn cyfuno cerddoriaeth draddodiadol Gymreig ag eiliadau o fyd arall, erchylltra, hiwmor a rhagoriaeth. Mae cynhyrchiad cyfnod David Pountney yn coffáu ac yn dwyn i gof ddigwyddiadau'r Somme.

Bydd In Parenthesis yn cael ei ffrydio'n fyw ar www.theoperaplatform.eu yn ystod yr haf 2016.

Canolfan Mileniwm Cymru Gwen 13 a Sad 21 Mai & Gwe 3 Mehefin

Birmingham Hippodrome
Gwe 10 Mehefin

Tŷ Opera Brenhinol
Mercher 29 Mehefin a Gwener 1 Gorffennaf

Am fwy o fanylion ewch i wno.org.uk/cy/event/parenthesis

---

(llun yn y cefndir) Aelod o grŵp o weithwyr yn gofalu am fedd rhyfel, ger Coedydd Mametz. Awst 1916. © IWM Q4095

### 13 Mai 2016 6:00yh - 13 Mai 2016 6:45yh

**Dewch i Ganu - Sosban Fach**

Llwyfan Glanfa, Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL

www.wno.org.uk/event/parenthesisparenthesis

Fel rhan o 'In Parenthesis Engage & Participate' Opera Cenedlaethol Cymru, bydd cyfle i unigolion a grwpiau cymunedol gymryd rhan mewn un o ddigwyddiadau Dewch i Ganu Opera Cenedlaethol Cymru. Y gân enwog Gymreig draddodiadol Sosban Fach fydd canolbwynt y digwyddiad. Canwyd y gân, sy'n boblogaidd efo cefnogwyr rygbi (gyda'i gwreiddiau yn Llanelli), yn y ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a cheir cyfeiriad ati gan David Jones yn ei gerdd ryfel fawr 'In Parenthesis'. Mae'r gerdd wedi cael ei haddasu i opera gan Iain Bell ar gyfer Tymor Haf 2016 Opera Cenedlaethol Cymru. Mae Sosban Fach ar ddechrau Act 2.

---

### 21 Mai 2016 7:15yh

**In Parenthesis**

Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute, Caerdydd, CF10 5AL

www.wmc.org.uk/Productions/2016-2017/WNO/259317/

Perfformiad cyntaf y Byd Cerddoriaeth gan Iain Bell

Libretto gan David Antrobus ac Emma Jenkins (ar ôl David Jones)

Mae In Parenthesis yn addasiad gan y cyfansoddwr ifanc Prydeinig, Iain Bell, o gerdd epig bardd, awdur ac artist o Gymru, David Jones. Comisiynwyd In Parenthesis gan Ymddiriedolaeth Nicholas John gyda 14-18 NOW, rhaglen ddiwylliannol yn y DU i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r milwr John Ball a'i gydfilwyr yn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn cael eu hanfon i'r Somme. Yng Nghoed Mametz maent yn dod i le rhyfedd – y tu hwnt i amser, fel breuddwyd, ond yn angheuol. Yn hytrach na dim ond adrodd straeon am erchyllterau'r Somme, mae In Parenthesis yn meiddio cynnig gobaith. Hyd yn oed yng nghanol yr holl ddinistr, mae adfywiad ac aileni bregus i'w canfod. Mae sgôr hyfryd Bell yn cyfuno cerddoriaeth draddodiadol Gymreig ag eiliadau o fyd arall, erchylltra, hiwmor a rhagoriaeth. Mae cynhyrchiad cyfnod David Pountney yn coffáu ac yn dwyn i gof ddigwyddiadau'r Somme.

Bydd In Parenthesis yn cael ei ffrydio'n fyw ar www.theoperaplatform.eu yn ystod haf 2016.

Canolfan Mileniwm Cymru Gwen 13 a Sad 21 Mai & Gwe 3 Mehefin

Birmingham Hippodrome
Gwe 10 Mehefin

Tŷ Opera Brenhinol
Mercher 29 Mehefin a Gwener 1 Gorffennaf

Am fwy o fanylion ewch i wno.org.uk/cy/event/parenthesis

---

### 28 Mai 2016 12:30yp - 28 Mai 2016 3:30yp

**Breichledi Glain Cod Morse**

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol, Abertawe, SA1 3RD

www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/

Beth am greu neges god gudd wedi'i chuddio mewn glain? Addas i deuluoedd. Gweithdai Galw heibio.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r amgueddfa yn uniongyrchol os gwelwch yn dda ar 0300 111 2 333 neu drwy e-bost: waterfront@museumwales.ac.uk

---

### 28 Mai 2016 - 29 Gorff 2016 a 30 Gorff - 20 Medi 2016

**Arddangosfeydd haf Amgueddfa Syr Henry Jones yn 2016**

Amgueddfa Syr Henry Jones, Y Cwm, Llangernyw, Abergele, LL22 8PR

www.sirhenryjonesmuseum.co.uk/Cymraeg

Fe fydd Amgueddfa Syr Henry Jones, Llangernyw yn canolbwyntio ar Ryfel a Heddwch ar gyfer eu harddangosfeydd yn ystod 2016.

Mae Arddangosfa cyntaf yr Amgueddfa yn dweud hanes effaith y Rhyfeloedd Byd ar y gymuned leol. Bydd yn cychwyn o ddydd Sadwrn 28 Mai am 2.00pm tan ddydd Gwener 29 Gorffennaf. Yn yr arddangosfa cofiwn am y milwyr aeth i'r Rhyfel gan ddangos eu lluniau, teuluoedd, storïau amdanynt a rhywfaint o'u hoffer personol. Yn yr ail arddangosfa byddwn yn trafod yr Heddychwr Waldo Williams, roedd ei daid yn frawd i Syr Henry Jones. Bydd yr arddangosfa yma yn dweud stori Waldo drwy luniau ac eitemau perthnasol ac mae yn cychwyn ar bnawn Sadwrn 30 Gorffennaf am 2.00 o'r gloch tan 20 Medi.

Cynhelir llawer o weithgareddau addysgiadol yn ymwneud ag arddangosfeydd yr Haf gyda mwy o fanylion ar ein tudalen Gweplyfr: SirHenryJonesMuseum

---

### 31 Mai 2016 11:00yb - 2 Meh 2016 4:00yp

**Gweithdai Argraffu i Deuluoedd**

Amgueddfa Genedlaethol

Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NP

www.amgueddfacymru.ac.uk/caerdydd/

"War's Hell!" Brwydr Mametz Wood mewn Celf

Roedd brwydr Mametz Wood yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn un o'r brwydrau ffyrnicaf i gatrodau milwyr Cymreig. Cewch ysbrydoliaeth o weld y lluniau trawiadol a'r farddoniaeth sydd i'w gweld yn yr arddangosfa a gwnewch eich print eich hun.

Gweithdai am 11am, 1pm a 3pm.

Rhaid archebu lle ymlaen llaw.

## MEHEFIN 2016

### 3 Meh 2016 7:15yh

**In Parenthesis**

Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Bute,Caerdydd, CF10 5AL

www.wmc.org.uk/Productions/2016-2017/WNO/259317/

Perfformiad cyntaf y Byd Cerddoriaeth gan Iain Bell

Libretto gan David Antrobus ac Emma Jenkins (ar ôl David Jones)

Mae In Parenthesis yn addasiad gan y cyfansoddwr ifanc Prydeinig, Iain Bell, o gerdd epig bardd, awdur ac artist o Gymru, David Jones. Comisiynwyd In Parenthesis gan Ymddiriedolaeth Nicholas John gyda 14-18 NOW, rhaglen ddiwylliannol yn y DU i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae'r milwr John Ball a'i gydfilwyr yn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn cael eu hanfon i'r Somme. Yng Nghoed Mametz maent yn dod i le rhyfedd – y tu hwnt i amser, fel breuddwyd, ond yn angheuol. Yn hytrach na dim ond adrodd straeon am erchyllterau'r Somme, mae In Parenthesis yn meiddio cynnig gobaith. Hyd yn oed yng nghanol yr holl ddinistr, mae adfywiad ac aileni bregus i'w canfod. Mae sgôr hyfryd Bell yn cyfuno cerddoriaeth draddodiadol Gymreig ag eiliadau o fyd arall, erchylltra, hiwmor a rhagoriaeth. Mae cynhyrchiad cyfnod David Pountney yn coffáu ac yn dwyn i gof ddigwyddiadau'r Somme.

Bydd In Parenthesis yn cael ei ffrydio'n fyw ar www.theoperaplatform.eu yn ystod haf 2016.

Canolfan Mileniwm Cymru Gwen 13 a Sad 21 Mai & Gwe 3 Mehefin

Birmingham Hippodrome Gwe 10 Mehefin

Tŷ Opera Brenhinol Mercher 29 Mehefin a Gwener 1 Gorffennaf

Am fwy o fanylion ewch i wno.org.uk/cy/event/parenthesis

### 3 Meh 2016 2:30yp - 3 Meh 2016 3:15yp

**Dewch i Ganu - Sosban Fach**

Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP

www.wno.org.uk/event/parenthesis

Fel rhan o 'In Parenthesis Engage & Participate' Opera Cenedlaethol Cymru, bydd cyfle i unigolion a grwpiau cymunedol gymryd rhan mewn un o ddigwyddiadau Dewch i Ganu Opera Cenedlaethol Cymru. Y gân enwog Gymreig draddodiadol Sosban Fach fydd canolbwynt y digwyddiad. Canwyd y gân, sy'n boblogaidd efo cefnogwyr rygbi (gyda'i gwreiddiau yn Llanelli), yn y ffosydd yn y Rhyfel Byd Cyntaf a cheir cyfeiriad ati gan David Jones yn ei gerdd ryfel fawr 'In Parenthesis'. Mae'r gerdd wedi cael ei haddasu i opera gan Iain Bell ar gyfer Tymor Haf 2016 Opera Cenedlaethol Cymru. Mae Sosban Fach ar ddechrau Act 2.

## GORFFENNAF 2016

### 1 Gorff 2016 10:00yb - 29 Gorff 2016 4:30yp

**Milwyr Sir y Fflint yn y Somme**

Archifdy Sir y Fflint, Yr Hen Reithordy, Penarlâg, Sir y Fflint, CH5 3NR

www.siryfflint.gov.uk/cy/LeisureAndTourism/Records-and-Archives/Home.aspx

Bydd yr arddangosfa yn dweud storïau rhai o filwyr Sir y Fflint a frwydrodd ym Mrwydr y Somme. Mae'n bosibl gweld yr arddangosfa yn ystod oriau agor yr Archifdy (Llun, Mawrth, Iau a Gwener, 10am i 4.30pm) yn ystod mis Gorffennaf, ac yna bydd yn teithio i leoliadau eraill yn y sir. Am fanylion o'r lleoliadau ac unrhyw wybodaeth arall, e-bostiwch archives@flintshire.gov.uk os gwelwch yn dda.

### 1 Gorff 2016 11:00yb - 13 Awst 2016 5:00yp

**Rhyfel Byd Cyntaf - Y Ffosydd**

Amgueddfa Powysland, Cei'r Gamlas, Y Trallwng, Powys, SY21 7AQ

www.powys.gov.uk/cy/amgueddfeydd/ymweld-ach-amgueddfa-leol/amgueddfa-powysland/

Yn dilyn ymlaen o'r blynyddoedd blaenorol mae'r arddangosfa hon ar y Rhyfel Byd Cyntaf yn canolbwyntio ar ryfela yn y ffosydd. Gan ddefnyddio casgliad yr amgueddfa mae'n darlunio

(llun yn y cefndir) Carcharorion rhyfel yng ngwersyll Fron-goch, Sir Feirionnydd, 1914-1918 © Archifdy Meirionnydd, Gwasanaeth Archifau Gwynedd 2015

bywyd a marwolaeth ar y Ffrynt Orllewinol.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r amgueddfa os gwelwch yn dda ar 01938 554656 neu powysland@powys.gov.uk

### 2 Gorff 2016 9:30yb - 3 Rhag 2016 6:00yh

**MAMETZ - Aled Rhys Hughes**

Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU

www.llgc.org.uk/blog/?p=8597&lang=cy

Arddangosfa o ffotograffau gwych o Goedwig Mametz gan Aled Rhys Hughes ochr yn ochr â recordiadau sain, gwaith gan y bardd David Jones a deunyddiau clyweledol eraill o gasgliadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

### 5 Gorff 2016 - 8 Gorff 2016

**Taith Ceir Clasurol Canmlwyddiant Mametz Wood**

The George, Y Mwmbwls, Abertawe, SA3 4EH

www.cymruncofio.org

Cyfle i ymuno â 100 o geir clasurol Prydeinig ar daith o Abertawe i Mametz, Ffrainc i gofio Brwydr Mametz Wood, brwydr o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn y Somme, Ffrainc.

Rhwng 7 – 12 Gorffennaf 1916, cofnodwyd dros 3500 o anafedigion Cymreig yn dilyn Brwydr Mametz Wood gyda dros 1000 o filwyr Cymreig wedi aberthu eu bywydau mewn brwydr hir i gipio Mametz Wood o'r fyddin Almaenig.

Manylion y daith:

5 Gorffennaf 2016 – Gadael The George, Y Mwmbwls, Abertawe am 12 y pnawn; cyrraedd Portsmouth i groesi dros nos i Caen, Ffrainc.

6 Gorffennaf 2016 – Teithio i'r gwestai gan yrru trwy gefn gwlad godidog Normandi a chyrraedd Amiens erbyn 6pm.

7 Gorffennaf 2016 – Mynychu Gwasanaeth ym Mametz Wood ac arddangos y ceir i'r cyhoedd yn Amiens (i'w gadarnhau).

8 Gorffennaf 2016 – Dychwelyd i Caen ar gyfer dal y fferi i'r DU (manylion yr amserau i'w cadarnhau) ac ymlaen i Abertawe.

Y Pecyn Teithio:

Mae'r Pecyn cynhwysol yn cynnwys:

Teithiau fferi – 1 car, 2 deithiwr

Llety ar sail gwely a brecwast mewn gwesty tair seren – ystafell ddwbl neu bâr o welyau

Cludiant i'r Gwasanaeth Canmlwyddiant

Costau gweinyddu

Cost: tua £450

I gofrestru eich diddordeb yn y Daith Mametz Wood, e-bostiwch os gwelwch yn dda landeg@ntlworld.com

### 7-10 Gorff 2016

**Cofio Mametz**

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd

www.rwfmuseum.org.uk

Gwasanaeth coffa a dehonglwyr mewn gwisg yn cynorthwyo i adrodd stori Brwydr Mametz yng Nghastell Caernarfon.

## AWST 2016

### 5 Awst 2016 - 1 Awst 2017

**Pabi'r Cofféu**

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin, SA44 5UP

www.amgueddfacymru.ac.uk/gwlan

Arddangosfa hanes natur yn edrych ar y pabi a'i bwysigrwydd fel symbol coffáu.

Arddangosfa deithiol gan Amgueddfa Cymru

0300 111 2 333

gwlan@amgueddfacymru.ac.uk

### 24 Awst 2016 10:00yb - 29 Ion 2017 5:00yp

**Am Ryddid ac Am Ymerodraeth**

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Ffordd Ystumllwynarth, Ardal Forwrol, Abertawe, SA1 3RD

www.amgueddfacymru.ac.uk/abertawe/

"If the men of Arfon choose to shelter beneath the mountains of Snowdonia, and therefore neglect their duty, then they will eternally lose the prime ideal of Nationalism – namely the opportunity to fight for freedom and for empire…."

Dyma eiriau'r Canon RT Jones o Fethesda yn 1914. Yn aml fe dybir bod holl gymunedau a diwydiannau Cymru wedi ymateb yn frwdfrydig i'r ymgyrch recriwtio a ddaeth cyn consgripsiwn. Mae'r arddangosfa yn edrych ar ymatebion yng nghymunedau chwareli llechi Cymru, gan esbonio os a pham fod y cymunedau hyn yn ei chael yn anodd i ymateb.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch

yn uniongyrchol â'r amgueddfa os gwelwch yn dda ar 0300 111 2 333 neu drwy e-bost: waterfront@museumwales.ac.uk

## MEDI 2016

### 14 Medi 2016

### Ystyr 1916 yn Iwerddon ac yng Nghymru: Cynhadledd a Noddir gan Rwydwaith Ymchwil Iwerddon-Cymru a Llywodraeth Cymru

Prifysgol Aberystwyth

www.aber.ac.uk/cy/history/staff/ppo/

Mae'r gynhadledd hon yn edrych ar arwyddocâd gwersyll carcharorion rhyfel Fron-goch yng ngogledd Cymru, lle y carcharwyd gweriniaethwyr Gwyddelig yn dilyn Gwrthryfel y Pasg 1916. Roedd y flwyddyn 1916 o arwyddocâd dirfawr i Iwerddon, ond roedd ganddi hefyd bwysigrwydd i ddatblygiadau yng Nghymru lle yr heriwyd y gefnogaeth am y rhyfel mewn nifer o ffyrdd. Bydd y gynhadledd yn defnyddio digwyddiadau 1916 i ofyn cwestiynau ehangach am hanes y ddwy wlad yn ystod ac yn dilyn blynyddoedd y rhyfel.

Cyswllt: Yr Athro Paul O'Leary, Prifysgol Aberystwyth.

## HYDREF 2016

### 12 Hyd 2016 - 20 Tach 2016

### Castell Caernarfon yn croesawu cerflun pabis y 'Weeping Window'

Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd

www.rwfmuseum.org.uk/cym/

Bydd cerflun pabis y Weeping Window, a fu'n rhan o'r arddangosfa wreiddiol Blood Swept Lands and Seas of Red, yn agor yng Nghastell Caernarfon ar 12 Hydref 2016, a chaiff ei gyflwyno yn arbennig gan 14-18 NOW er mwyn nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Bydd ar gael i'w weld yn y castell hyd 20 Tachwedd 2016, sy'n golygu y bydd yn ei le ar gyfer Sul y Cofio a chanmlwyddiant diwedd Brwydr y Somme.

Mae Weeping Window yn rhan o'r arddangosfa Blood Swept Lands and Seas of Red a fu yn Nhŵr Llundain yn 2014; arddangosfa o 888,246 o babis, un er cof am fywyd pob milwr o Brydain a'r Trefedigaethau a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Weeping Window yw'r cerflun a welwyd ar ffurf rhaeadr o babis yn llifo o ffenestr uchel i'r ffos welltog islaw.

Mae'r cerflun Weeping Window wedi'i gadw i'r genedl gan y Backstage Trust a Sefydliad Clore Duffield, ac wedi'i gyflwyno fel anrheg i 14-18 NOW a'r Amgueddfeydd Rhyfel Imperialaidd.

Yn yr un modd â phob prosiect 14-18 NOW, nod cyflwyno'r cerfluniau i gynulleidfaoedd newydd yw ysgogi trafodaeth newydd ar draws y wlad ynghylch gwaddol y Rhyfel Byd Cyntaf.

## TACHWEDD 2016

### 11 Tach 2016

### Tafluniad Wynebau'r Rhyfel Byd Cyntaf

Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Castell Caernarfon, Caernarfon, Gwynedd

www.rwfmuseum.org.uk/cym/

Tafluniad o enwau a ffotograffau pob un o'r Colledigion, os byddant gennym, ar Furiau'r Castell.

(llun yn y cefndir) Pererindod Heddwch y Menywod. © Yr Archif a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor


© Philip Davies, Cangen De Cymru, Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin

# Y Cymry yng Nghoed Mametz 1916: y Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol

Bydd Gorffennaf 2016 yn dynodi canmlwyddiant Brwydr y Somme a ddechreuodd ar 1 Gorffennaf ac a barhaodd hyd 18 Tachwedd 1916. Gellir dadlau mai dyma frwydr fwyaf arwyddocaol y Rhyfel Byd Cyntaf; lladdwyd 419,654 o filwyr Prydain a'r Gymanwlad, bron i 20,000 ohonynt ar y diwrnod cyntaf, ac anafwyd llawer mwy. Gadawodd ei hôl ar ysbryd y genedl. Cofir yn aml am yr aberth a wnaed gan fataliynau'r 'Pals' ar y cyntaf o Orffennaf, sef aelodau cyffredin Byddin Newydd Kitchener. Dyma'r dynion a oedd wedi gwirfoddoli gyda'u cyfeillion a'u cyd-weithwyr mewn ardaloedd, mannau gwaith neu broffesiynau penodol.

Ar 7 Gorffennaf 1916, aeth y 38ain Adran (Gymreig) i'r gad gyda'r nod o gipio Coed Mametz, a oedd yn hanfodol i ail gam y frwydr fawr. Roedd y 38ain Adran (Gymreig) yn cynnwys bataliynau tebyg i fataliynau'r 'Pals' a oedd yn dod o drefi a siroedd Lloegr. Roedd nifer o Gymry wedi gwasanaethu ac yn parhau i wasanaethu mewn unedau eraill o'r Fyddin Brydeinig, ond bataliynau a ffurfiwyd gan wirfoddolwyr Cymreig oedd y 38ain Adran (Gymreig). Roedd bataliynau o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Catrawd Cymru a Chyffinwyr De Cymru yno, sef dynion a oedd wedi ymrestru o ardaloedd fel y Rhondda, Caerdydd, Abertawe, Caerfyrddin, Gwent a Gogledd Cymru yn ogystal â dynion o blith Cymry Llundain.

(llun yn y cefndir) Lluniau rhyfel gan Filwyr Cymreig Muirhead Bone – © IWM (Art.IWM REPRO 000684 34)



# ‘Parchwn eu Hymdrechion Parhaed ein Hatgofion’



Roedd llawer ohonynt wedi’u recriwtio’n lleol, ac yn perthyn i’r un garfan o ddynion a oedd wedi gweithio a chymdeithasu gyda’i gilydd ac a oedd yn rhannu’r un meddylfryd. Dyma ficrocosm o fywyd y genedl ac fe’i galwyd yn ‘Fyddin Gymreig Lloyd George’.

Cafodd hynt y Cymry yng Nghoed Mametz a’r colledion dirfawr effaith drom ar gymdeithas Cymru ar y pryd, sef colled y mae llawer o gymunedau Cymru heddiw yn parhau i’w theimlo. O ganlyniad i’r frwydr, dioddefodd y 38ain Adran (Gymreig) dros 4,000 wedi’u hanafu, a lladdwyd dros 1,000 o’r rheiny. Mae gweddillion rhai o’r dynion a laddwyd yn parhau i fod wedi’u claddu yn y coed hyd heddiw; nid oes gan dros 750 ohonynt fedd ac felly ceir coffâd ohonynt ar Gofeb Thiepval.

‘Parchwn eu Hymdrechion
Parhaed ein Hatgofion’

Mae Cangen De Cymru o Gymdeithas y Ffrynt Gorllewinol yn cydlynu’r Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol a gynhelir yng Nghoed Mametz, Picardi ar 7 Gorffennaf a digwyddiadau pellach yn y dyddiau dilynol. Bydd y brif ddefod goffa yn digwydd ar safle Cofeb y Ddraig Goch; mae’r gofeb ysblennydd hon sy’n wynebu’r coed wedi’i gwneud o haearn gyr a dur gan y cerflunydd a’r gof, David Petersen. Y gobaith yw y bydd nifer fawr o ddisgynyddion y rhai a frwydrodd ac a fu farw ac eraill yn ymgynnull yng Nghoed Mametz i gymryd rhan yn y gwasanaethau coffa a chymodi. Mae Côr Meibion Treorci a band y Gatrawd Frenhinol Gymreig eisoes wedi dweud y byddan nhw’n arwain y gwasanaeth ac isod, ceir rhagflas o’r rhaglen.

## Dydd Iau 7 Gorffennaf

Ar **7 Gorffennaf 2016,** am 11.00am, cynhelir gwasanaeth coffa a chymodi ger y Gofeb i’r 38ain Adran (Gymreig), Coed Mametz, sef cofeb y bu Cangen De Cymru Cymdeithas y Ffrynt Gorllewinol yn gyfrifol am ei chomisiynu yn 1987. Yn dilyn hynny, caiff torchau eu gosod a bydd cyngherddau yn cael eu cynnal yn ystod y prynhawn a gyda’r nos ym mhentref Mametz a/neu y ‘Salle des Fêtes’ sydd newydd ei hadfer. Mae cynlluniau hefyd i’r band berfformio yn y prynhawn ar lain gwyrdd pentref Mametz ac i Gôr Meibion Treorci gynnal cyngerdd gyda’r nos yn Basilica Albert. Bydd hyn yn dilyn ffurf

digwyddiadau 11 Gorffennaf 1987, ac yn cynnwys y gymuned leol a'r ymwelwyr yn y coffáu, yn ogystal â phobl ifanc o Gymru a'r ardal leol. Bydd plant o ysgol bentref Mametz yn canu ac yn cyfrannu yn ystod y digwyddiadau.

**Yn ystod y dyddiau canlynol, cynhelir cyfres o ddigwyddiadau a fydd yn cyd-fynd â'r coffáu.**

### Dydd Gwener 8 Gorffennaf

Ar **Ddydd Gwener 8 Gorffennaf 2016** cynhelir gwasanaeth coffa byr ym **Mynwent Flat Iron Copse** (bore). Mae tua 90 o filwyr Cymreig a laddwyd yng Nghoed Mametz yn gorwedd yn y fynwent hon, a'r gobaith yw gosod un plentyn/person ifanc/perthynas wrth bob carreg fedd i osod pabi/torch. Darperir gwybodaeth am bob milwr a rhoddir y wybodaeth hon i bob un sy'n cyflwyno pabi/torch cyn y digwyddiad.

Ar brynhawn 8 Gorffennaf, cynhelir cyfres o sgyrsiau/arddangosfeydd a theithiau tywys ym Mametz/Coed Mametz. Bydd modd i bawb fynd a dod fel y dymunant. Mae nifer o bobl eisoes wedi cytuno i roi eu gwasanaeth. Dyma fydd elfen dreftadaeth y broses goffa a bydd cyfle i bawb gyfranogi.

Gobeithir y bydd y cyfraniadau yn cynnwys y canlynol:

- Bydd David Petersen yn siarad am greu cofeb y Ddraig.
- Arddangosfa ffotograffig dan gyfarwyddyd Aled Roberts ac arddangosfa gan Gymdeithas David Jones.
- Bydd Gwyn Prescott, awdur 'Call them to Remembrance' yn siarad am ddau chwaraewr rygbi rhyngwladol Undeb Rygbi Cymru a laddwyd yng Nghoed Mametz, Uwch Ringyll Cwmni Richard 'Dick' Thomas a Chapten John Williams, y ddau o 16eg Bataliwn Cymreig (Dinas Caerdydd).
- Ymweliad â'r gofeb i Harry Fellowes sydd yn y coed a darlleniad o'i gerdd.
- Teithiau tywys wedi'u trefnu drwy'r coed.
- Bydd Dr Jonathan Hicks yn siarad am ei lyfr diweddaraf ar 'Mametz'.
- Bydd yr Is-Gadfridog Jonathon Riley yn sgwrsio am 'Llewellyn Wyn Griffith at Mametz Wood'.
- Bydd sgwrs ar y 130ain Ambiwlans Maes a ddeliodd gyda llawer o'r rhai a anafwyd yn y frwydr.

### Dydd Sadwrn 9 Gorffennaf

Ar **Sadwrn 9 Gorffennaf** cynhelir gwasanaeth coffa byr ym **Mynwent Dantzig Alley** (bore) yn dilyn gwasanaeth coffa ar y cyd â Chomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad (CWGC) ger **Cofeb Thiepval** i'r rhai a gollwyd. Thema arbennig CWGC i'r diwrnod hwn fydd y rhai a gollodd eu bywyd o Gymru ym mrwydr Coed Mametz. Yn y prynhawn, cynhelir gwasanaeth coffa ym **Mynwent Heilly Station** (lle aethpwyd â llawer o'r rhai a gafodd eu clwyfo). Mae nifer tebyg o filwyr Cymreig o Frwydr Coed Mametz wedi'u claddu yn y mynwentydd hyn. Yn y mynwentydd, bydd un plentyn/person ifanc/perthynas wrth bob carreg fedd i osod pabi/torch. Darperir gwybodaeth am bob milwr a rhoddir y wybodaeth hon i bob un sy'n cyflwyno pabi/torch cyn y digwyddiad.

Ar **Ddydd Sul 10 Gorffennaf** (i'r sawl sy'n codi'n gynnar), cynhelir Gwyliadwriaeth Fore ger safle'r Ffos Strip o ble lansiwyd rhai o ymosodiadau 10 Gorffennaf.

Cefnogir y gweithgareddau hyn gan Lywodraeth Cymru, trigolion Pentref Mametz, Catrawd Frenhinol Gymreig, Côr Meibion Treorci, Cymdeithasau Cyn-filwyr, y Lleng Brydeinig, Cymdeithas y Ffrynt Gorllewinol a Chomisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Philip Davies, Ysgrifennydd Cangen De Cymru o Gymdeithas y Ffrynt Gorllewinol philgreenisha@btinternet.com.



**(chwith) Hen filwyr a gwesteion yn seremoni cyflwyno Cofeb Mametz yn 1987 © Philip Davies, Cangen De Cymru, Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin**
**(uchod) Pentrefwyr Mametz a gwesteion y tu allan i'r Mairie © Philip Davies, Cangen De Cymru, Cymdeithas Ffrynt y Gorllewin**

(llun yn y cefndir) Lluniau rhyfel gan Filwyr Cymreig Muirhead Bone - © IWM (Art.IWM REPRO 000684 34)